



ASSOCIATION OF
CHIEF POLICE OFFICERS



Swyddfa Gartref

PWYSLAIS AR Y DIODDEFWR: ADRODDIAD CRYNO AR Y TREIALON DELIO Â GALWADAU YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

Ebrill 2012

Cynnwys

Rhagair gan yr Ysgrifennydd Cartref	3
Rhagair ACPO.....	4
1. Cyflwyniad	6
2. Amddiffyn dioddefwyr bregus a mynych - pum egwyddor allweddol.....	7
3. Canllaw i'r wyth llu heddlu oedd yn cymryd rhan	10
4. Addasu'r pum egwyddor - beth wnaeth y lluoedd.....	15
5. Canlyniadau a chamau nesaf	20
ATODIADAU	
Atodiad A: Fideo hyfforddi delio â galwadau Gorllewin Mersia.....	24
Atodiad B: Sampl o setiau cwestiynau YGG.....	25
Atodiad C: Sampl o Siartiau Llif Asesiad Risg.....	26
Atodiad D: Proses Asesu Risg YGG: Gweithgor Rhanddeiliaid Swydd Gaergrawnt – dogfennau 1-4	28
1. Cyfarwyddyd delio â galwadau YGG i'r rhai sy'n delio â galwadau.....	28
2. Siart llif yn dangos y broses ar gyfer ymdrin â digwyddiadau YGG.....	30
3. Metrics Asesu Risg (RAM).....	31
4. Siart Llif yn dangos y broses ar gyfer mewnbynnu proffiliau ar y “system TG cwmwl rhyngrwyd”	32
Atodiad E: Sampl o gytundeb rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau a system TG gymunedol.....	33
Atodiad F: De Cymru: Isafswm Safonau Cyffredin.....	39
Atodiad G: Astudiaethau Achos.....	43

Rhagair gan yr Ysgrifennydd Cartref



Mae'n aml yn hawdd diystyru'r niwed y mae ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus yn medru ei achosi. Fe wn fod nifer o luoedd heddlu, cynghorau a darparwyr tai wedi gwneud camau breision dros y blynyddoedd diwethaf, ond rydym yn dal i glywed am ddiodefwyr yn rhoi adroddiadau am yr un broblem drosodd a throsodd a chael ymateb annigonol.

Gall y problemau hirdymor yma - a'r ymdeimlad o ddiymadferthedd sy'n dod gyda nhw - ddinistrio ansawdd bywyd y dioddefwr a chwalu ymddiriedaeth cymuned yn yr heddlu. Dyna pam ein bod wedi bod yn gweithio gydag wyth llu heddlu a'u partneriaid lleol i brofi dull newydd o ddelio â galwadau ymddygiad gwrthgymdeithasol gan y cyhoedd. Y nod oedd canolbwyntio ar y niwed y mae diodefwyr yn ei brofi - yn hytrach na dim ond rhoi ticiau mewn blychau ar ffurflen - ac i ddynodi'r achosion gyda'r risgiau mwyaf yn gyflym a delio â nhw.

Roedd yr wyth llu heddlu a gymerodd ran yn ganolog yn y gwaith o ddylunio a datblygu'r treialon hyn. Datblygodd pob llu heddlu ei syniadau ei hun, gyda help y Llywodraeth a Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO), ac roedd pob llu yn cael rhyddid i fod yn flaengar ac addasu ei gynllun yn ôl yr hyn oedd yn gweithio yn dda yn eu hardal leol.

Mae mwy i'w wneud ond bu'r canlyniadau gwreiddiol yn galonogol. Mae'r lluoedd heddlu wedi gwella bodlonrwydd y rhai sy'n galw, yn medru dynodi diodefwyr bregus yn well ac yn gynt, ac maent yn gweithio yn fwy clos gydag asiantaethau eraill wrth ddelio â'r achosion lle mae llawer o risg. Yn bwysicaf oll, mae'r lluoedd heddlu wedi medru dynodi'r unigolion sydd mewn mwyaf o berygl - pobl, yn aml, sy'n dioddef y gamdriniaeth fwyaf erchyll a fyddai fel arall wedi gallu lithro trwy'r rhyd - ac maent wedi gweithredu i wneud i'r gamdriniaeth stopio.

Mantais fawr arall y treialon hyn oedd yr effaith y maent wedi ei gael ar swyddogion a staff yr heddlu. Mae lluoedd heddlu wedi disgrifio fel y mae canolbwyntio ar y niwed sy'n cael ei achosi i'r dioddefwr, yn hytrach na natur yr ymddygiad gwrthgymdeithasol ei hun, wedi helpu eu swyddogion i sylweddoli pa mor niweidiol y gall ymddygiad gwrthgymdeithasol fod.

Oherwydd y llwyddiant hwn yr ydym yn cyhoeddi canlyniadau'r treialon. Ein nod yw i heddluoedd eraill a'u partneriaid gael gweld beth sydd wedi gweithio yn ymarferol fel eu bod hwythau yn medru ystyried cyflwyno dull tebyg.

Rwyf yn ddiolchgar iawn i'r wyth llu heddlu a wirfoddolodd - Avon a Gwlad yr Haf, Swydd Caergrawnt, Swydd Gaerlŷr, Swydd Lincoln, y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan, Heddlu De Cymru, Sussex, a Gorllewin Mersia - am arwain y treialon hyn ac am rannu eu canfyddiadau. Fe fyddwn yn annog lluoedd heddlu eraill ac ardaloedd eraill i ddysgu oddi wrth eu profiad a defnyddio'r adroddiad hwn fel canllaw ar gyfer mabwysyadau dull o ddelio â galwadau a rheoli achosion gwell wrth ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn y modd hwnnw, gall mwy o gymunedau gael budd a gellir helpu mwy o ddiodefwyr bregus.

Y Gwir Anrhydeddus Theresa May AS

Rhagair ACPO



Un o fwriadau sylfaenol plismona yw cadw pobl yn ddiogel. Cred Gwasanaeth Heddlu Cymru a Lloegr bod gan bob unigolyn a chymuned hawl i fyw eu bywydau heb fygythiadau, aflonyddu ac anhrefn arall sy'n difrodi ansawdd eu bywydau.


Yn gyffredinol, nid yw dinasyddion yn gweld gwahaniaeth rhwng troseddau ag ymddygiad gwrthgymdeithasol: maent yn ein galw ni pan fydd rhywbeth drwg yn digwydd iddyn nhw neu yn eu hardal, ac maent yn gofyn i ni wneud rhywbeth i'w atal rhag digwydd. Rydym yn glir iawn mai un o'r blaenoriaethau allweddol i wasanaethau cyhoeddus yw diogelu'r cyhoedd rhag y niwed sy'n cael ei achosi gan droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae'r gwasanaeth heddlu yn cydnabod y bydd y digwyddiadau mwyaf difrifol bob amser yn cael effaith anferth ar unrhyw unigolyn neu gymuned waeth pa mor wydn neu gryf y maent. Ychydig o niwed y bydd y digwyddiadau lleiaf difrifol yn ei achosi i'r rhan fwyaf o bobl ac mae'r rhan fwyaf o gymunedau yn ddigon gwydn i wrthsefyll digwyddiadau o'r fath. Ond, mae rhai pobl a rhai cymunedau yn dioddef yn fawr o ddigwyddiadau a all ymddangos yn rhai bychan hyd yn oed. Weithiau mae'r digwyddiadau hyn yn rhan o batrwm ehangach neu maent wedi bod yn digwydd ers peth amser. Mae rhai dioddefwyr yn fwy agored i'r niwed y gall troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol eu hachosi. Rhaid i'r heddlu a'n partneriaid fedru dynodi'r bobl hynny neu'r ardaloedd hynny sydd mewn mwyaf o risg o niwed ac ymateb yn y modd mwyaf addas.

Roedd yr angen hwn, dynodi'r rhai sydd mewn perygl ac ymateb yn briodol, yn ganolog i'r treialon delio â galwadau a rheoli achosion. Datblygodd swyddogion yr heddlu, staff yr heddlu a'u partneriaid ffyrdd gwell o ddelio â gwybodaeth a'i rhannu; defnyddio'r wybodaeth i sicrhau bod yr ymateb cywir yn cael ei roi i unigolion; ac fe wnaethant ganfod ffyrdd gwell i wahanol sefydliadau weithio gyda'i gilydd i ymdrin ag achosion.

Fe edrychodd y treialon hefyd ar ffyrdd gwell o ymgynghori â chymunedau ac i ddynodi blaenoriaethau pobl leol. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn flaenoriaeth leol mewn nifer o gymunedau. Mae'n hanfodol i ni ddatblygu ffyrdd gwell o gysylltu gyda phobl a'u cynnwys. Ni all ymddygiad gwrthgymdeithasol gael ei 'ddatrys' gan wasanaethau cyhoeddus yn unig. Mae ar gymdeithas angen cymunedau hyderus a gwydn, sy'n dangos diwylliant o barchu ei gilydd ymhlith pobl. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at nifer o sialensiau: bydd gwella ein hymateb yn gofyn am newidiadau i'n diwyllianau yn ogystal â'n gweithdrefnau; mae angen i ni gadw biwrocratiaeth cyn lleied â phosibl; ac mae'n rhaid i ni oresgyn yn gyfreithlon unrhyw gyndynrwydd anaddas i rannu gwybodaeth pan fydd hynny yn ein hatal rhag gwneud y gorau i ddioddefwyr.

Mae'r wyth llu heddlu, trwy weithio yn lleol a gyda phartneriaid, wedi ymroi i'r treialon â brwdfrydedd ac rwyf yn falch o weld y blaengaredd a'r creadigrwydd a ddangosir yn yr adroddiad hwn. Rwyf yn diolch iddynt ac rwyf yn argymhell yr arfer gorau sydd yn yr adroddiad i luoedd heddlu eraill a'u partneriaid. Credaf yn bendant y bydd yn caniatáu i ni gyflawni gwell gwasanaeth i unigolion ac i gymunedau a'n helpu i'w cadw yn ddiogel.

A handwritten signature in black ink, consisting of a series of loops and a long horizontal stroke at the end.

Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Simon Edens
Arweinydd Portffolio Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ACPO

1. Cyflwyniad

1. Diffiniwyd y term ‘ymddygiad gwrthgymdeithasol’ yn gyfreithiol yn Neddf Trosedd ac Anrhefn 1998, i ddisgrifio’r niwsans, anhrefn a throseddau o ddydd i ddydd oedd o bwys i bobl leol ond nad oedd nifer o luoedd heddlu ac asiantaethau partner yn rhoi blaenoriaeth iddynt. Ynghyd â’r diffiniad roedd pwerau sifil fel Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO), a fwriadwyd i gynnig dewis gwahanol i erlyniadau troseddol mewn achosion pan oedd hi’n anodd profi bod trosedd wedi cael ei chyflawni, neu pan oedd dioddefwyr ag ofn rhoi tystiolaeth yn erbyn eu cymdogion.
2. Rydym wedi symud cryn bellter ers hynny. Ym Medi 2010, cyhoeddodd Syr Denis O’Connor, Prif Arolygwr Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi (HMIC), ‘Stop the Rot’, ei adolygiad o’r ffordd y roedd y 43 llu heddlu yng Nghymru a Lloegr yn ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol. Nododd bod gwelliannau sylweddol wedi’u gweld, bod yr holl heddluoedd yn rhestru ymddygiad gwrthgymdeithasol fel blaenoriaeth strategol, a bod plismona cymdogaeth yn arbennig yn medru gwneud gwahaniaeth mawr pan gaiff ei wneud yn iawn.
3. Ond, ymddygiad gwrthgymdeithasol yw’r mater plismona sydd bwysicaf ar lefel leol, ac yn 2010/11, rhoddwyd adroddiad ar dros dair miliwn o ddigwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol i’r heddlu yng Nghymru a Lloegr. Rhoddwyd llawer mwy o adroddiadau hefyd i asiantaethau lleol eraill fel cynghorau lleol, a chymdeithasau tai, neu ni roddwyd adroddiad o gwbl.
4. Nododd Syr Denis, mewn llawer o luoedd heddlu, bod diwylliant yn parhau o roi blaenoriaeth i droseddau ‘gwirioneddol’ yn hytrach nag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd llai na hanner y lluoedd heddlu yn medru dynodi problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol lleol a manau problemus, a dyrannu adnoddau yn ôl hynny. Roedd llai wedyn yn medru dynodi dioddefwyr mynych a dioddefwyr bregus pan fyddent yn galw am gymorth. Nododd hefyd bod llawer o bartneriaethau lleol yn canolbwyntio ar strategaethau tymor hir yn hytrach na gweithredu tymor byr i ddiogelu dioddefwyr a chymunedau.
5. Mae angen i ni weithio gyda’r heddlu, cynghorau, landlordiaid cymdeithasol ac eraill i herio’r diwylliant hwnnw. Y rheswm - fel sydd wedi cael ei ddarlunio yn rhy glir gan achosion trasig diweddar - yw y gall yr hyn sy’n cael ei ddiystyru weithiau fel ‘dim byd ond’ ymddygiad gwrthgymdeithasol fod yn droseddu, ond gall hefyd achosi niwed difrifol, yn arbennig pan fydd yn cael ei dargedu at unigolyn penodol. Pan fydd asiantaethau yn methu gweld y niwed hwnnw, neu ymdrin â’r broblem yn effeithiol, gall y canlyniadau fod yn ysgytwol, nid yn unig yn yr achosion mwyaf eithafol, ond yn y nifer lawer mwy o bobl a chymunedau y mae eu bywydau yn cael eu melltithio gan aflonyddu dyddiol a’r ofn sy’n mynd gyda hynny.
6. Mae’r treialon delio â galwadau a rheoli achosion a drafodir yn yr adroddiad hwn yn cynrychioli ymdrech ‘o’r gwaelod i fyny’ i symud sylw’r ymarferwyr o gofnodi mathau o ymddygiad gwrthgymdeithasol, i ddiogelu dioddefwyr a chymunedau rhag niwed. Mae canfyddiadau manwl pob un o’r wyth llu heddlu oedd yn cymryd rhan yn y treialon yn dod gyda’r adroddiad, a byddai’n werth chweil yn sicr i unrhyw asiantaeth arall sy’n dymuno mabwysiadu’r dull delio â galwadau a rheoli achosion o ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol astudio’r canfyddiadau hyn yn fanwl. Yn y ddogfen hon, fodd bynnag, rydym yn cynnig crynodeb o’r gwersi allweddol a ddysgwyd, ac yn tanlinellu rhai adnoddau defnyddiol i asiantaethau sy’n gobeithio gwella’r gwasanaeth y maent yn ei gynnig i dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol.

2. Amddiffyn dioddefwyr bregus a mynych – pum egwyddor allweddol

7. Mae rhai achosion trasig diweddar yn ymwneud â dioddefwyr bregus a mynych wedi tanlinellu nifer o wendidau yn yr ymateb trwy bartneriaeth leol i ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roeddent yn cynnwys: asiantaethau yn trin digwyddiadau newydd ar eu pen eu hunain, yn hytrach na fel rhan o ymgyrch barhaus ac wedi'i thargedu; peidio â sylweddoli'r niwed y mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ei greu; ac asiantaethau yn peidio â rhannu gwybodaeth neu ddatblygu ymateb wedi ei strwythuro i ddiodeffwyr bregus a mynych.
8. Mae enghreifftiau o'r fath yn enghraifft eithafol o'r hyn all fod o'i le pan fydd yr hyn sy'n cael ei ddiystyru fel 'dim byd mwy nag' ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cuddio problem sy'n fwy difrifol. Ond nid achosion lleol unwaith yn unig oedd y gwendidau hynny. Yn hytrach, maent yn adlewyrchu pryderon y mae'r ymarferwyr eu hunain wedi eu codi ers nifer o flynyddoedd.
9. Crisialwyd y problemau mewn adroddiad gan HMIC ym Medi 2010, ar y ffordd y mae'r 43 llu heddlu yng Nghymru a Lloegr yn ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol. Canfu HMIC, tra bod yr holl luoedd heddlu wedi dweud eu bod yn cymryd ymddygiad gwrthgymdeithasol o ddifrif, ac roedd rhai - gyda'u partneriaid lleol - yn gwneud gwaith rhagorol, roedd safonau'r gwasanaeth yn amrywio yn fawr o ardal i ardal.
10. Yr hyn oedd yn peri mwyaf o bryder oedd yr amrywiaeth yng ngallu lloedd heddlu i ddynodi ac amddiffyn diodeffwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol bregus a mynych. Canfu HMIC, allan o'r 43 llu heddlu yng Nghymru a Lloegr, mai dim ond 22 oedd yn medru dynodi diodeffwyr mynych yn effeithiol ar adeg yr adroddiad, a dim ond 16 o'r 43 llu oedd yn medru dynodi pa mor fregus oedd y diodeffwr yn effeithiol. Dim ond 13 llu oedd yn medru dynodi'r unigolion hynny oedd mewn mwyaf o berygl - galwyr bregus a mynych - pan oedd galwad yn cael ei wneud.

GOFYN I'R ARBENIGWYR BETH SY'N GWEITHIO

11. Gan eu bod yn awyddus i brofi ffordd newydd 'leol' o weithio, bu swyddogion y Swyddfa Gartref yn gweithio gyda chydweithwyr o Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO), yr Asiantaeth Gwella Plismona Genedlaethol (NPIA) a Grŵp Troseddau a Niwsans y Landlordiaid Cymdeithasol (SLCNG) i ddarganfod pa ardaloedd lleol oedd yn cael eu cydnabod fel rhai oedd yn cynnig gwasanaeth rhagorol i ddiodeffwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol, a beth oedden nhw yn ei wneud yn wahanol i'r gweddill.
12. Fe wnaeth y gwaith hwn ddynodi pum egwyddor sylfaenol wrth galon dull mwy effeithiol o ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn canolbwyntio ar niwed i'r diodeffwr neu'r gymuned, yn hytrach na rhoi'r ymddygiad ei hun mewn categori. Y rhain oedd:
 - system ddelio â galwadau effeithiol ar gyfer digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gofnodi gwybodaeth o'r cyswllt cyntaf fel bod galwyr mynych ac achosion gyda'r risg fwyaf yn cael eu hamlygu;
 - asesu'r risg bosibl i ddiodeffwyr yn gynnar yn y broses o ddelio â galwadau;
 - defnyddio TG syml, oddi ar y silff, i rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau lleol a galluogi dull mwy diwriad o amddiffyn diodeffwyr sydd mewn perygl;
 - yr holl asiantaethau sy'n ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardal yn cael egwyddorion rheoli achos cyffredin; a
 - phroses gadarn i ennyn ymlyniad y gymuned er mwyn dynodi'r problemau sy'n achosi mwyaf o niwed i unigolion ac ardaloedd, a sut y gall yr heddlu, asiantaethau lleol eraill a'r cyhoedd weithio gyda'i gilydd i ymdrin â nhw.

13. Fe brofwyd yr egwyddorion hyn yn unigol. Er enghraifft, roedd nifer o luoedd heddlu yn defnyddio offer asesu risg i'w helpu i ddynodi dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol a allai fod mewn perygl o ddiodef niwed, neu i ddynodi troseddau casineb. Roedd ardaloedd eraill yn defnyddio pecynnau TG sydd ar gael yn hawdd i rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau. Ond, nid oedd unrhyw ardal yn gweithredu'r pump ar unwaith - er bod nifer wedi dynodi yn anffurfiol eu bod yn awyddus i geisio gwneud hynny.
14. Ysgrifennodd ACPO at y 43 llu heddlu, gan geisio gwirfoddolwyr oedd yn barod i brofi ffyrdd o gynnig gwell gwasanaeth i ddiodefwyr a chymunedau trwy weithredu'r pum egwyddor gyda chefnogaeth asiantaethau partner. Cyflwynodd pymtheg geisiadau, a dewisodd grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Swyddfa Gartref, ACPO, NPIA a SLCNG wyth o wirfoddolwyr, gan sicrhau cymysgedd o luoedd heddlu mawr a bach, trefol a gwledig - Avon a Gwlad yr Haf, Swydd Caergrawnt, Swydd Caerlŷr, Swydd Lincoln, y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan, Heddlu De Cymru, Sussex, a Gorllewin Mersia.

TREIALON O'R GWRAIDD I FYN

15. Gan gadw at y duedd oddi wrth gyfarwyddyd o'r brig i lawr tuag at atebolrwydd lleol, democrataidd ar faterion troseddol a phlisma, rhoddwyd rhwydd hant i'r wyth llu heddlu oedd yn cymryd rhan i weithredu'r pum egwyddor yn y ffordd oedd yn gweddu i'w hamgylchiadau. Roedd hynny'n cynnwys y rhyddid i newid neu addasu eu dull yn ystod y treialon wrth ymateb i broblemau neu faterion oedd yn dod i'r amlwg.
16. Cymerodd y Swyddfa Gartref ac ACPO rôl cydlynu prosiect ar y cyd, trwy gynnig ystod o gefnogaeth pan ofynnwyd amdani, gan gynnwys:
 - dynodi problemau a gwersi fel yr oeddent yn dod i'r amlwg, a'u rhannu gyda'r rhai eraill oedd yn cymryd rhan;
 - hyfforddiant wedi ei deilwrio a chyfarfodydd briffio ar rôl asiantaethau oedd yn bartneriaid a dulliau gwahanol o ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.
 - hyfforddiant ar gyfer staff delio â galwadau;
 - cyngor proffesiynol a chefnogaeth i heddluoedd ac asiantaethau eraill ar offer asesu risg, TG a thechnegau ennyn ymlyniad cymunedau; a
 - chefnogi seminarau a setiau dysgu i'r rhai oedd yn cymryd rhan.
17. Fe wnaeth NPIA hefyd sefydlu fforwm benodol ar POLKA, safle cydweithio ar-lein yr heddlu. Fe ddefnyddiodd yr heddluoedd a gymerodd ran POLKA i rannu eu syniadau gyda'i gilydd a gyda heddluoedd eraill, rhoi dogfennau allweddol ar-lein i gymharu nodiadau (e.e. setiau o gwestiynau a ddefnyddid gan y rhai oedd yn derbyn galwadau, cardiau sgôr risg, a mapiau proses).
18. Bu dadansoddwyr ymchwil y Swyddfa Gartref hefyd yn helpu'r gwirfoddolwyr i ddylunio proses asesu i gasglu canfyddiadau allweddol fel bod heddluoedd eraill yn medru deall beth oedd wedi cael ei brofi ymhob ardal, a pha wersi oedd wedi cael eu dysgu yn y broses.

19. Cyhoeddwyd y treialon yn Ionawr 2011, ac fe fuont yn rhedeg hyd ddiwedd Gorffennaf. Cynhaliodd yr wyth llu heddlu eu hunain asesiadau eu hunain. Fe wnaethant gyflwyno eu gwerthusiadau i'r Swyddfa Gartref ar ddiwedd Medi, gan nodi beth yr oeddent wedi ei wneud, beth oedd wedi gweithio yn dda, beth nad oedd wedi gweithio, a beth yr oeddent yn ei feddwl oedd y canlyniad.
20. Mae'r adborth o'r treialon yn cefnogi'r newidiadau a wnaed yn Ebrill 2011 i'r categorïau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y Safon Genedlaethol ar gyfer Cofnodi ac Asesu Digwyddiadau (gweler y blwch testun isod). Defnyddir y tri chategori newydd o ddigwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol (personol, niwsans ac amgylcheddol) gan yr holl heddluoedd yng Nghymru a Lloegr ac maent wedi helpu i atgyfnerthu'r newid mewn diwylliant tuag at asesu risg ac ymateb yn addas yn hytrach na chanolbwyntio ar gofnodi digwyddiadau.

Y SAFON GENEDLAETHOL AR GYFER COFNODI AC ASESU DIGWYDDIAD (NSIRA) 2012: YMDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

Diffinnir ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Neddf Trosedd ac Anhrefn (1998) fel gweithredu 'mewn modd oedd yn achosi neu oedd yn debygol o achosi aflonyddwch, dychryn neu bryder i un neu fwy o bobl nad oeddent o'r un aelwyd a'r tramgwyddwr.' Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys troseddau trefn gyhoeddus ar lefel isel a throseddau eraill sy'n droseddau y dylid hysbysu amdanynt ac felly tu hwnt i gylch gorchwyl y Safon Genedlaethol Cofnodi ac Asesu Digwyddiadau (NSIRA). Rhoddir diffiniad mwy addas o ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer dibenion cofnodi digwyddiadau yn Neddf Tai (1996): 'Cymryd rhan neu fygwth cymryd rhan mewn ymddygiad sy'n achosi neu'n debygol o achosi niwsans neu bryder i bobl sy'n ymwneud â gweithgareddau cyfreithlon'.

Ers Ebrill 2011, mae'r driniaeth ar ymddygiad gwrthgymdeithasol yn NSIRA wedi adlewyrchu ethos rheoli achos yn hytrach na dull sy'n rhan o broses cofnodi digwyddiad. Mae'n ystyried y sbectwm o niwed ac anghenion y dioddefwyr. Mae'n annog rheoli risg a phwyslais ar ddatrys problemau. Mae'r tri chategori symlach (personol, niwsans ac amgylcheddol), sydd wedi eu lleihau o'r 14 gwreiddiol, yn newid y pwyslais o ddim ond cofnodi ac ymateb i ddigwyddiadau i ddynodi'r unigolion, cymunedau ac amgylcheddau bregus hynny sydd mewn mwyaf o berygl ac felly sydd angen ymateb cyn i'r problemau waethygu. Esbonnir y tri chategori fel a ganlyn:

Dyluniwyd 'Personol' i ddynodi digwyddiadau sydd wedi eu targedu yn fwriadol at unigolyn neu grŵp penodol neu sydd wedi eu bwriadu i gael effaith ar unigolyn penodol neu grŵp penodol yn hytrach na'r gymuned yn gyffredinol;

'Niwsans' sy'n cwmpasu'r digwyddiadau hynny pan fydd unigolyn neu grŵp yn achosi helynt, diflastod, anghyfleustra, tramgwydd neu ddiodefaint i bobl yn y gymuned leol yn gyffredinol yn hytrach na chael eu targedu'n fwriadol at unigolion neu grwpiau penodol; ac

'Amgylcheddol' sy'n ymdrin â'r rhyngweithio rhwng pobl a lleoedd. Mae'n cynnwys digwyddiadau a gweithredoedd anystyriol sy'n cael effaith ar yr amgylchedd gan gynnwys yr amgylchedd naturiol, adeiledig a chymdeithasol. Mae'r categori hwn yn ymwneud ac annog ymddygiad rhesymol wrth reoli a diogelu amgylcheddau amrywiol fel bod pobl yn medru mwynhau eu gofod preifat eu hunain yn ogystal â manau cyhoeddus neu a rennir.

Mae rhagor o waith ac ymgynghori gyda'r 43 o luoedd heddlu yn parhau fel rhan o'r adolygiad o categorïau digwyddiadau NSIRA.

3. Canllaw i'r wyth llu heddlu oedd yn cymryd rhan

Roedd yr wyth heddlu a wirfoddolodd (**print tywyll**) yn gymysgedd o ardaloedd gwledig, rhannol wledig a threfol o blith y 43 ardal llu heddlu yng Nghymru a Lloegr.

1. **Cwnstabliaeth Avon a Gwlad yr Haf**
2. Heddlu Swydd Bedford
3. **Cwnstabliaeth Swydd Gaergrawnt**
4. Cwnstabliaeth Swydd Gaer
5. Heddlu Dinas Llundain
6. Heddlu Cleveland
7. Cwnstabliaeth Cumbria
8. Cwnstabliaeth Swydd Derby
9. Heddlu Dyfnaint a Chernyw
10. Heddlu Dorset
11. Cwnstabliaeth Durham
12. Heddlu Essex
13. Cwnstabliaeth Swydd Gaerloyw
14. Heddlu Manceinion Fwyaf
15. Cwnstabliaeth Swydd Hampshire
16. Cwnstabliaeth Swydd Hertford
17. Heddlu Glannau Humber
18. Heddlu Swydd Caint
19. Cwnstabliaeth Swydd Gaerhirfryn
20. **Cwnstabliaeth Swydd Gaerlŷr**
21. **Heddlu Swydd Lincoln**
22. Heddlu Glannau Mersi
23. **Y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan**
24. Cwnstabliaeth Swydd Norfolk
25. Heddlu Swydd Northampton
26. Heddlu Swydd Northumbria
27. Heddlu Gogledd Swydd Gaerefrog
28. Heddlu Swydd Nottingham
29. Heddlu De Swydd Gaerefrog
30. Heddlu Swydd Stafford
31. Cwnstabliaeth Swydd Suffolk
32. Heddlu Surrey
33. **Heddlu Sussex**
34. Heddlu Dyffryn Tafwys
35. Heddlu Swydd Warwick
36. **Heddlu Gorllewin Mersia**
37. Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr
38. Heddlu Gorllewin Swydd Gaerefrog
39. Heddlu Swydd Wiltshire
40. Heddlu Dyfed-Powys
41. Heddlu Gwent
42. Heddlu Gogledd Cymru
43. **Heddlu De Cymru**

MAP O'R 43 LLU HEDDLU YNG NGHYMRU A LLOEGR



AVON A GWLAD YR HAF

Mae ardal llu heddlu Avon a Gwlad yr Haf yn cynnwys 1,855 milltir sgwâr gyda phoblogaeth o tua 1.6 miliwn. Mae chwe ardal blismona yn Avon a Gwlad yr Haf yn cynnwys cymunedau trefol a gwledig. Ardal Bryste yw'r lleiaf yn ddaeryddol ond, gyda phoblogaeth o 406,000 o breswylwyr, dyma'r un fwyaf dwys ei phoblogaeth. Mae yno boblogaeth dros dro fawr hefyd. Ardal Gorllewin Gwlad yr Haf yw'r ardal blismona fwyaf; mae'n cynnwys amrywiaeth eang o ardaloedd yn economaidd, cymunedol a daeryddol, gan gynnwys y ddwy dref farchnad fawr sef Taunton a Bridgwater. Yn 2010/11 roedd 84,338 digwyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi eu cofnodi gan yr heddlu¹ yn Avon a Gwlad yr Haf. Cofnododd Arolwg Troseddau Prydain (BCS)² ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2010/11 bod 10% o'r bobl yn Avon a Gwlad yr Haf yn amgyffred bod llawer o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardal leol.

www.avonandsomerset.police.uk

CWNSTABLIAETH SWYDD GAERGRAWNT

Cyflwynodd Cwnstabiliaeth Swydd Gaergrawnt gais ar y cyd i gymryd rhan yn y treialon gyda Phartneriaeth Ddiogelwch Cymunedol Fenland. Ffurfiodd y rhanddeiliaid allweddol - Cyngor Dosbarth Fenland, Roddons (Darparwr Cartrefi Cofrestredig) a Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Gaergrawnt - **Weithgor Rhanddeiliaid Swydd Gaergrawnt**. Cynhaliwyd y treial yn ardal y Fenland - ardal wledig yn bennaf sydd yn rhan ogledd ddwyreiniol y sir, gan gynnwys tref Wisbech. Mae'r boblogaeth yn wasgaredig yn Fenland (tua 95,000 o breswylwyr) gyda llawer o gymunedau amrywiol ag anghenion gwahanol, a dyma ardal fwyaf difreintiedig Swydd Gaergrawnt. Yn 2010/11 roedd 42,435 digwyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi eu cofnodi gan yr heddlu yn Swydd Gaergrawnt. Cofnododd Arolwg Troseddau Prydain (BCS) ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2010/11 bod 9% o'r bobl yn Swydd Gaergrawnt yn amgyffred bod llawer o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardal leol.

www.cambs.police.uk

HEDDLU SWYDD GAERLŶR

Mae Heddlu Swydd Gaerlŷr yng nghanol heddluoedd Dwyrain Canolbarth Lloegr, wedi eu hamgylchynu gan Swydd Nottingham, Swydd Derby, Swydd Lincoln a Swydd Northampton. Mae'n gwasanaethu poblogaeth Caerlŷr, Swydd Gaerlŷr a Rutland. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn parhau yn un o brif linyddau gwaith yr holl Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol, a chynhaliwyd y treialon delio â galwadau ar draws ardal y llu i gyd. Roedd yr holl awdurdodau lleol perthnasol yn cymryd rhan, ynghyd ag ystod o bartneriaid eraill, gan gynnwys: Cymorth i Ddiodeffwyr; Awdurdod Heddlu Swydd Gaerlŷr; y Gwasanaeth Prawf; y Gwasanaeth Troseddwr Ifanc; a Phrifysgol Caerlŷr. Yn 2010/11 roedd 39,368 digwyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi eu cofnodi gan yr heddlu yn Swydd Gaerlŷr. Cofnododd Arolwg Troseddau Prydain (BCS) ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2010/11 bod 10% o'r bobl yn Swydd Gaerlŷr yn amgyffred bod llawer o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardal leol.

www.leics.police.uk

-
- 1 Cyflwynir yr ystadegau ar y nifer o ddigwyddiadau YGG a gofnodwyd ar gyfer pob un o'r wyth llu heddlu yn y treialon ym Mwletin Ystadegol y Swyddfa Gartref ar ystadegau troseddau yng Nghymru a Lloegr ar gyfer 2010/11. Cofnodir digwyddiadau dan y Safon Genedlaethol ar gyfer Cofnodi ac Asesu Digwyddiadau (NSIRA). Er bod digwyddiadau yn cael eu cofnodi dan NSIRA yn ôl y dull 'pwyslais ar y diodeffwr' sy'n berthnasol i droseddau a gofnodir, nid yw'r ffigyrau hyn yn Ystadegau Cenedlaethol wedi eu hachredu ac nid ydynt yn destun i'r un lefel o sicrhau ansawdd â'r prif gasgliad o droseddau a gofnodir.
 - 2 Cyflwynir yr ystadegau ar amgyffrediad y cyhoedd o YGG ar gyfer pob un o'r wyth llu heddlu yn y treialon ym Mwletin Ystadegol y Swyddfa Gartref ar ystadegau troseddau yng Nghymru a Lloegr ar gyfer 2010/11 fel y maent wedi eu cymryd o Arolwg Troseddau Prydain.

HEDDLU SWYDD LINCOLN

Ardal wledig yn bennaf yw Swydd Lincoln yn ffinio ar Fôr y Gogledd a'r Wash. Mae'r llu yn cwmpasu pentrefi bychain, trefi marchnad, ac un ddinas. Mae gan y sir boblogaeth o 665,270. Yn ne'r sir ceir clystyrau o boblogaeth, a dinas Lincoln yw'r ganolfan drefol fwyaf. Caiff ardaloedd gwledig ac ynysig weithiau arfordir y dwyrain, yn Skegness a Mablethorpe fewnlifiad sylweddol o ymwelwyr yn yr haf. Mae Swydd Lincoln ddwywaith maint unrhyw sir arall yn rhanbarth Dwyrain Canolbarth Lloegr. Yn 2010/11 roedd 37,952 digwyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi eu cofnodi gan yr heddlu yn Swydd Lincoln. Cofnododd Arolwg Troseddau Prydain (BCS) ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2010/11 bod 8% o'r bobl yn Swydd Lincoln yn amgyffred bod llawer o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardal leol.

www.lincs.police.uk

Y GWASANAETH HEDDLU METROPOLITAN

Mae'r Gwasanaeth Heddlu Metropolitan yn cynnwys ardal ddaearyddol o 32 awdurdod lleol neu fwrdeistref. Mae poblogaeth breswyl Llundain yn 7.1 miliwn, sy'n cynyddu gyda mewnlifiad dyddiol o weithwyr o'r tu allan i Lundain ac economi amrywiol yn ystod y nos. Gwelir amrywiadau sylweddol yn lefelau'r amddifadedd ar draws ardal y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan, ac mae tair bwrdeistref yn Llundain sy'n cael eu rhestru ymhlith yr 20 ardal sydd wedi eu hamddifadu waethaf yn y Deyrnas Unedig. Cynhaliwyd y treial delio â galwadau mewn pedair bwrdeistref - Hackney, Harrow, Lambeth a Richmond. Cofnododd y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan 419,765 digwyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn 2010/11. Cofnododd Arolwg Troseddau Prydain (BCS) ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2010/11 bod 21% o'r bobl yn yr ardal Fetropolitan/Dinas Llundain (rhanbarth Llundain) yn amgyffred bod llawer o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardal leol.

www.met.police.uk

HEDDLU DE CYMRU

Mae Heddlu De Cymru yn cynnwys tua 10% o ardal ddaearyddol Cymru, ond mae gan ardal yr heddlu 1,225,900 o breswylwyr, dros 40% o boblogaeth Cymru gyfan. Caerdydd ac Abertawe yw'r prif ganolfannau trefol, ond mae ardal y llu hefyd yn cynnwys Cymoedd De Cymru. Mae'r llu yn cynnwys 232 cymdogaeth ac mae wedi ei rannu yn bedair ardal adrannol:

- Ardal y Gogledd (Merthyr a Rhondda Cynon Taf)
- Ardal y Dwyrain (Caerdydd)
- Ardal y Gorllewin (Castell-nedd, Port Talbot ac Abertawe)
- Yr Ardal Ganolog (Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr)

Yn 2010/11 roedd 90,608 digwyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi eu cofnodi gan heddlu De Cymru. Cofnododd Arolwg Troseddau Prydain (BCS) ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2010/11 bod 24% o'r bobl yn Ne Cymru yn amgyffred bod llawer o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardal leol.

www.south-wales.police.uk

HEDDLU SUSSEX

Rhennir Sussex yn dair ardal weinyddol - Dwyrain Sussex, Gorllewin Sussex a Dinas Brighton a Hove. Mae Dwyrain a Gorllewin Sussex yn awdurdodau dwy haen, tra bod Brighton a Hove yn awdurdod unedol. Mae'r ddwy ardal cyngor sir yn gymysgedd o ardaloedd gwledig a threfol ac mae arfordir yn y ddwy. Mae nifer o ardaloedd yn dioddef amddifadedd ar lefel uchel yn Dwyrain Sussex. Yn Brighton mae poblogaeth fudol fawr, oherwydd twristiaeth, economi nos fawr a chymuned Lesbaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) sylweddol - Brighton Pride yw un o'r digwyddiadau mwyaf o'i fath yn y wlad. Yn 2010/11 roedd 91,470 digwyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi eu cofnodi gan yr heddlu yn Swydd Sussex. Cofnododd Arolwg Troseddau Prydain (BCS) ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2010/11 bod 13% o'r bobl yn Sussex yn amgyffred bod llawer o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardal leol.

www.sussex.police.uk

HEDDLU GORLLEWIN MERSIA

Heddlu Gorllewin Mersia sy'n gyfrifol am blismona rhanbarth amrywiol o 2,868 milltir sgwâr, gan ei wneud y pedwerydd heddlu mwyaf o ran maint ardal yng Nghymru a Lloegr. Er bod pum ardal drefol yn yr ardal - Caerloyw, Redditch, Henffordd, Amwythig a Telford - gwledig yw'r ardal yn bennaf, gyda rhai ardaloedd, yn arbennig Swydd Henffordd a Swydd Amwythig, yn cael eu hystyried yn 'wasgaredig' o ran poblogaeth. Y pum uned blismona diriogaethol yw - Swydd Henffordd, Gogledd Swydd Gaerloyw, De Swydd Gaerloyw, Swydd Amwythig a Telford a Wrekin. Cynhaliwyd y treialon delio â galwadau yn Telford a Wrekin. Yn 2010/11 roedd 75,013 digwyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi eu cofnodi gan heddlu Gorllewin Mersia. Cofnododd Arolwg Troseddau Prydain (BCS) ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2010/11 bod 8% o'r bobl yng Ngorllewin Mersia yn amgyffred bod llawer o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardal leol.

www.westmercia.police.uk

4. Addasu'r pum egwyddor – beth wnaeth y lluoedd

21. Fe wnaeth pob llu heddlu ddefnyddio ei ddull ei hun o ymdrin â'r treialon. Er enghraifft, fe wnaeth pump o'r wyth gynnal eu treialon ar draws ardal gyfan y llu, tra bod y **Gwasanaeth Heddlu Metropolitan** wedi canolbwyntio ar bedair bwrdeistref (Hackney, Harrow, Lambeth a Richmond), a **Swydd Gaergrawnt** a **Gorllewin Mersia** wedi canolbwyntio ar ardal benodol (Ardal Fenland, a Telford a Wrekin yn eu tro). Cyflwynodd Cwnstablaieth **Swydd Gaergrawnt** gais ar y cyd i gymryd rhan yn y treialon gyda Phartneriaeth Ddiogelwch Cymunedol Fenland.
22. Yn yr un modd, nid oedd pob llu heddlu wedi canolbwyntio ar y pum egwyddor i gyd. Er enghraifft, canolbwyntiodd **Gweithgor Rhanddeiliaid Swydd Gaergrawnt** yn bennaf ar greu system ddelio â galwadau effeithiol, asesu risg a defnyddio TG, tra bod **Sussex** wedi edrych yn benodol ar ddelio â galwadau, asesu risg a rheoli achos. Mewn rhai achosion - fel **Avon a Gwlad yr Haf**, a **Swydd Gaerlŷr** - roedd y treialon yn ffordd o adeiladu ar y cynlluniau oedd yn bodoli i wella eu hymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol.
23. Fe ddefnyddiodd y rhai a gymerodd ran drefniadau llywodraethu gwahanol hefyd i reoli'r treialon a chasglu'r gwersi allweddol. Yn y **Gwasanaeth Heddlu Metropolitan**, roedd y cyfrifoldeb am lywodraethu strwythur y treial gan grŵp llywio ar lefel uchel, tra bod pob bwrdeistref yn penodi uwch reolwr fel yr arweinydd gweithredol. Yn **Ne Cymru**, cynhyrchodd Grŵp Cynghori De Cymru Ddiogelach (SSWAG) strategaeth ar draws y bartneriaeth ar gyfer y treialon.
24. Esbonnir y gwahanol ddulliau yn fanylach yng ngwerthusiadau'r lluoedd heddlu eu hunain sy'n dod gyda'r adroddiad hwn. Ond, yma rydym wedi ceisio casglu rhai o'r uchafbwyntiau dan bob un o'r pum egwyddor.

SYSTEM DDELIO Â GALWADAU EFFEITHIOL, YN COFNODI GWYBODAETH O'R ALWAD GYNTAF UN

25. Mae nodau system ddelio â galwadau effeithiol yn ddeublyg. Yn gyntaf, i gasglu cymaint o wybodaeth am y dioddefwr a'r digwyddiad y maent yn ei gofnodi ar y cyswllt cyntaf i ddynodi'r ymateb mwyaf addas gan yr heddlu ac asiantaethau sy'n bartneriaid. Yn ail, i storio'r wybodaeth honno mewn modd fel petai'r dioddefwr yn galw eto, bod yr un sy'n delio â'r alwad yn gwybod ei fod wedi galw o'r blaen, pa ddigwyddiadau y rhoddwyd adroddiad arnynt yn y gorffennol, a pha gamau a gymerwyd.
26. Dyma rai enghreifftiau o'r modd y gwnaeth lluoedd heddlu weithredu'r egwyddor honno:
 - Mae **Gorllewin Mersia** a **Swydd Gaerlŷr** ill dau wedi gosod systemau Rheoli Perthynas â Chwsmeriaid sy'n dangos i'r rhai sy'n delio â galwadau pan fydd adroddiadau am ddigwyddiadau blaenorol wedi dod o'r un rhif ffôn, gyda dioddefwyr mynych yn cael eu hamlygu gan y system.
 - Yn **Swydd Gaerlŷr**, mae'r system hefyd yn tynnu sylw pan fydd galwyr - yn arbennig y rhai a ddynodwyd fel achosion risg uchel - yn ymddangos ar systemau eraill yr heddlu, ac yn caniatáu i'r rhai sy'n delio â'r galwadau i drosglwyddo gwybodaeth i swyddogion ar eu ffordd at y digwyddiad.
 - Yn **Avon a Gwlad yr Haf**, mae'r system yn rhoi prompt i'r rhai sy'n delio â galwadau i alw'r dioddefwr yn ôl cyn pen 24 awr i gynnal asesiad risg mwy manwl. Mae Avon a Gwlad yr Haf yn awr yn anelu at alw 100% o'r dioddefwr risg uchel yn ôl cyn pen 24 awr.
 - Yn **Swydd Lincoln**, cam cyntaf pwysig oedd cytuno ar ddiffiniad cyffredin o 'ddioddefwr mynych' rhwng yr holl asiantaethau oedd yn ymwneud ag ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan ei gwneud hi'n haws i gytuno ar drothwy ar gyfer ymyrraeth ar y cyd.

ASESU'R RISG BOSIBL I DDIODDEFWYR YN GYNNAR YN Y BROSES O DDELIO Â GALWADAU

27. Nod asesu risg systematig yw dynodi'r achosion hynny pan fydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn achosi, neu y gallai arwain at, niwed difrifol i'r dioddefwr, naill ai fel rhywbeth unwaith ac am byth neu ran o ymgyrch wedi ei thargedu. Mae hyn wedyn yn cynnig sail ar gyfer ymyrraeth amlasiantaethol i reoli achosion risg uchel - o ran amddiffyn y dioddefwyr bregus sydd angen cefnogaeth, a hefyd ymdrin â'r tramgwyddwyr. Mae'n caniatáu ymateb mwy cymesur i'r digwyddiadau hynny nad ydynt yn amlwg yn creu risg uchel, gan sicrhau bod adnoddau'r heddlu a'r asiantaethau yn cael eu targedu ar y lle y mae eu hangen.
28. Fe wnaeth yr holl luoedd heddlu oedd yn cymryd rhan ddefnyddio rhyw ffurf ar asesiad risg, ond fe wnaethant ddatblygu a phrofi ystod o ddulliau gwahanol. Fe wnaeth y rhai oedd yn delio â galwadau yn rhai luoedd heddlu asesu risg trwy siarad trwy set o gwestiynau yr oedd y system yn eu rhoi yn awtomatig pan fyddent yn cymryd yr alwad gyntaf, gyda phwyntiau sbarduno ar gyfer problemau fel troseddau casineb. Fe wnaeth eraill lunio barn gychwynnol ar ba mor fregus oedd y dioddefwr dros y ffôn, ac yna byddai swyddogion yn cynnal asesiad risg mwy manwl yn ystod yr ymweliad dilynol. Yn y ddau achos, y peth pwysig oedd dynodi achosion pan oedd angen ymateb yn glir ac yn gyson, ac i rannu gwybodaeth gyda swyddogion eraill ac asiantaethau sy'n bartneriaid.
29. Gwelodd nifer o'r luoedd heddlu bod y prosesau a'r templedi asesu risg safonol (e.e. Metrics Asesu Risg safonol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref yn 2009) yn rhy gaeth. Fe wnaethant naill ai fyrhau neu ddiwygio'r set o gwestiynau i ddiwallu anghenion lleol, neu roi mwy o le ar gyfer barn broffesiynol a synnwyr cyffredin. Roedd yr angen i hyfforddi staff yn y ffordd i ddefnyddio asesiad risg yn briodol hefyd yn thema gyffredin yn adroddiadau gwerthuso'r luoedd heddlu.
30. Dyma rai enghreifftiau o'r hyn a wnaeth luoedd heddlu:
- mewn nifer o luoedd heddlu, ychwanegwyd promptiau at y systemau delio â galwadau fel bod staff yn defnyddio set o gwestiynau wedi ei theilwrio i asesu risg ar y cyswllt cyntaf â'r dioddefwr;
 - yn yr un modd, mae'r rhan fwyaf o heddluoedd yn defnyddio'r broses hon i ddynodi dioddefwyr fel rhai risg 'uchel', 'canolig' neu 'arferol', gyda dioddefwyr risg uchel yn cael eu nodi i gael ymateb ar unwaith a chefnogaeth amlasiantaethol;
 - yn **Swydd Gaerlŷr**, mae'r dioddefwyr mwyaf bregus yn cael eu cyfeirio at Ddesg Gyfeirio Gynhwysfawr yr heddlu, lle maent yn cael eu cefnogi gan amrywiaeth o swyddogion arbenigol sy'n ymdrin â natur fregus a phroblemau diogelu ehangach;
 - fe wnaeth y rhan fwyaf o heddluoedd fabwysiadu proses asesu risg gyffredin gyda'r asiantaethau oedd yn bartneriaid iddynt. Yn **Swydd Lincoln**, fe wnaeth yr holl bartneriaid gytuno i ddefnyddio'r un set o gwestiynau i asesu risg i gychwyn, i sicrhau cysondeb wrth ddynodi natur fregus, dioddefwyr mynych a throseddau casineb posibl. Fe wnaeth **Gweithgor Rhanddeiliaid Swydd Gaergrawnt** addasu prosesau asesu risg rhanddeiliaid unigol, i greu trothwy cyffredin ar gyfer newid achos o 'Canolig' i 'Uchel';
 - yn Llundain, oherwydd y nifer fawr o ddigwyddiadau, mae'r rhai sy'n delio â galwadau'r **Gwasanaeth Heddlu Metropolitan** yn sgrinio i gychwyn am ddioddefwyr bregus, ar sail dewislen ar y system. Yna bydd asesiad risg mwy manwl yn cael ei gynnal gan y swyddog sy'n ymchwilio. Mae achosion risg uchel yn cael eu hamlygu i gael sylw ar unwaith. Bydd achosion dioddefwyr bregus a mynych wedyn yn eitemau gorfodol mewn cyfarfodydd pennu tasgau dyddiol yn y pedair bwrdeistref yn y treial;
 - yng **Ngorllewin Mersia**, mae staff y cownter blaen hefyd wedi cael hyfforddiant mewn asesu risg, i ymdrin â dioddefwyr sy'n cerdded i mewn oddi ar y stryd i roi adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol; ac

- mae **Avon a Gwlad yr Haf** yn defnyddio'r asesu risg eto, ar ddiwedd yr ymchwiliad, i asesu pa mor fregus yw'r dioddefwyr eto cyn penderfynu cau achos.

DEFNYDDIO PECYNNAU TG ODDI AR Y SILFF I RANNU GWYBODAETH RHWNG ASIANTAETHAU.

31. Bu gallu rhannu TG o fewn sefydliadau – heb sôn am ar draws asiantaethau lleol - yn broblem ers amser maith. Yn yr un modd, un o'r rhwystrau mwyaf cyffredin a roddodd ymarferwyr adroddiad arno o ran mabwysiadu dull oedd yn un gwirioneddol amlasiantaethol o weithredu o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol yw'r anhawster i rannu gwybodaeth sensitif. Y syniad yma - yn seiliedig ar enghreifftiau o'r hyn sydd wedi gweithio yn dda mewn ardaloedd eraill - oedd dod o hyd i ffyrdd ymarferol, rhad o weithio o gwmpas y problemau hynny, yn hytrach nag ateb TG i'r diben mwy traddodiadol (a drud).
32. Trwy ddefnyddio TG oddi ar y silff fel hyn mae gwybodaeth am ddioddefwyr bregus a mynych yn medru cael ei rannu rhwng asiantaethau (h.y. 'cyfannu'r darlun' pan fydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael effaith ar draws ystod eang o wasanaethau lleol), ac mae'n caniatáu i achosion risg uchel gael eu rheoli yn 'fyw'. Y nod ar ddechrau'r treialon hefyd oedd cael gwell cyswllt i leihau'r angen am gyfarfodydd wyneb yn wyneb rhwng partneriaid.
33. Mae'n werth nodi bod rhai pryderon ehangach yn yr asiantaethau am ddiogelwch TG a diogelu data. Er bod y pryderon hynny, a'r effaith y maent yn ei gael ar ymddygiad, yn ddealladwy i raddau, mae sail ddeddfwriaethol glir dros roi blaenoriaeth i'r angen i atal niwed i aelodau o'r cyhoedd.
34. Dyma rai enghreifftiau o'r dulliau gwahanol a ddefnyddiwyd gan y lluoedd heddlu a gymerodd ran:
 - Mae **Swydd Gaergrawnt** a **Sussex** ill dau wedi profi system TG 'ar sail cwmwl' wedi ei amgryptio sy'n rhoi cyfle i bartneriaid rannu gwybodaeth ar ddioddefwyr risg uchel a rheoli achosion ar y cyd ar-lein. Yn sylfaen i'r system mae Cytundebau Lefel Gwasanaeth a Chytundebau Rhannu Gwybodaeth rhwng asiantaethau, a rhaid cael cydsyniad ysgrifenedig, ar sail gwybodaeth gan ddioddefwyr cyn y gall y wybodaeth amdanynt gael ei rhoi ar y system;
 - Mae **Swydd Gaerlŷr** a phartneriaid allweddol (e.e. Cyngor Dinas Caerlŷr, Cyngor Sir Caerlŷr a Chynghorau Bwrdeistref a Dosbarth) yn cynnal astudiaeth dichonolrwydd i system TG 'ar sail cwmwl' arall ar gyfer rhannu gwybodaeth;
 - Rhoddodd **Avon a Gwlad yr Haf** fynediad 'darllen yn unig' i staff awdurdod lleol yn Nosbarth De Swydd Gaerloyw i System Rheoli Digwyddiadau a Chudd-wybodaeth y llu heddlu, sydd wedi lleihau dyblygu ymdrech ac wedi galluogi partneriaid i rannu gwybodaeth am achosion a gweithio gyda'i gilydd i'w datrys rhyngddynt; a
 - Buddsoddodd **De Cymru** a'u partneriaid mewn cronfa ddata ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n berchen iddynt ar y cyd ac ar y we, sy'n cysylltu digwyddiadau y rhoddwyd adroddiad amdanynt gydag ystod o asiantaethau gyda chofnodion unigol dioddefwyr - mae hyn yn ei gwneud hi'n llawer haws i ddynodi dioddefwyr mynych a bregus.

CYTUNO AR DDULL DIWNIAD O REOLI ACHOSION

35. Mae sicrhau y bydd yr heddlu ac asiantaethau sy'n bartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i reoli achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol yn hanfodol i ddod o hyd i ateb tymor hir sy'n atal rhagor o niwed i'r dioddefwr. Yn benodol, mae ar bartneriaid lleol angen protocolau clir, a rennir ar gyfer ymdrin â'r achosion hynny pan fernir bod y dioddefwr yn un risg uchel neu yn fregus. Gallai'r protocolau gynnwys egwyddorion cyffredinol ar pryd i agor achos, sbardun ar gyfer ymyrraeth gan asiantaethau gwahanol, trothwy ar gyfer defnyddio gwahanol offer a phwerau, ystyriaethau cyfreithiol a'r gofynion ar gyfer cau achos.
36. Dyma rai enghreifftiau o'r hyn a wnaeth y lluoedd heddlu a gymerodd ran a'u partneriaid:
- Nododd **Swydd Lincoln** bod yr heddlu ac asiantaethau partner yn gweithio yn ôl diffiniadau gwahanol o ymddygiad gwrthgymdeithasol, gyda'r heddlu yn edrych ar droseddau a'u gallu i'w datrys tra bod partneriaid yn canolbwyntio ar anghenion y dioddefwyr, y niwed posibl a'r cyfleoedd i ymyrryd i leihau'r ymddygiad gwrthgymdeithasol. Maent yn awr wedi mabwysiadu termau safonol, gan gynnwys diffiniad o 'ddioddefwr mynych', sy'n cael ei adlewyrchu yn y system rheoli achosion trwy'r sir gyfredol;
 - Bu **De Cymru** yn gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno safonau cyffredin ar gyfer chwe maes strategol yn ymateb y bartneriaeth i ymddygiad gwrthgymdeithasol: rheoli cyswllt, ymateb cychwynnol; unedau YGG; dioddefwyr mynych a bregus; rheoli manau cythryblus iawn; a fforymau adolygu achosion YGG. Teimla'r bartneriaeth bod y gwaith hwn wedi gwella gweithio mewn partneriaeth a'r modd y darperir gwasanaeth a'i fod wedi adeiladu ar drefniadau blaenorol lle mae staff amlasiantaethol yn yr un safle; ac
 - yn **Sussex**, fe wnaeth Dosbarth Gorllewin Sussex greu set o safonau gyda phartneriaid, sy'n cynnwys cyfyngiadau amser y cytunwyd arnynt ar gyfer cynnal asesiadau risg ac adolygu achosion y dioddefwyr mwyaf bregus. Yn Brighton a Hove, mae achosion risg uchel yn sbarduno Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC) yn awtomatig.

PROSES ENNYN YMLYNIAD GYMUNEDOL GADARN

37. Yn y gorffennol, mae'r heddlu ac asiantaethau eraill weithiau yn cymryd eu hagwedd o ran blaenoriaethau ym maes ymddygiad gwrthgymdeithasol oddi wrth y llywodraeth ganolog, er enghraifft trwy ganolbwyntio ar y saith dangosydd a danlinellir yn Arolwg Troseddau Prydain (ysbwriel, fandaliaeth a graffiti, ceir wedi eu gadael, rhai yn eu harddegau yn loetran, ymddygiad meddw neu swnllyd, pobl yn defnyddio neu'n gwerthu cyffuriau, a chymdogion swnllyd). Ond, mae'r symudiad oddi wrth 'dicio blychau' ar sail categorïau penodol o ymddygiad tuag at ganolbwyntio ar y niwed i ddioddefwyr yn dibynnu ar ddealltwriaeth fwy soffistigedig o'r hyn sy'n digwydd yn lleol, a beth sydd o bwys i bobl.
38. Dylai dod o hyd i ffyrdd newydd a mwy effeithiol o ennyn ymlyniad cymunedau ar ymddygiad gwrthgymdeithasol gryfhau atebolrwydd lleol a thryloywder, gan helpu asiantaethau i dargedu eu hadnoddau yn fwy effeithiol trwy roi mwy o lais i ddioddefwyr. Gall technoleg newydd, yn arbennig offer rhwydweithio cymdeithasol hefyd helpu asiantaethau i gyrraedd grwpiau sy'n dueddol o beidio ag ymateb i ffurfiau traddodiadol o ennyn ymlyniad, fel arolygon.

39. Nodir rhai enghreifftiau o ddull y lluoedd heddlu o ymdrin ag ymlyniad cymunedol yn ystod y treialon isod:

- bu **Gweithgor Rhanddeiliaid Swydd Gaergrawnt** yn gweithio gyda phartneriaid ehangach i ddatblygu adnodd cymdeithasol sy'n bodoli o'r enw 'Shape Your Place (www.wisbech.shapeyourplace.org), sy'n cynnwys safleoedd Facebook, Twitter a Flickr. Mae'r safle yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd roi adroddiadau ar faterion sy'n peri pryder yn ogystal â chael gwybod am ddigwyddiadau lleol. Mae pobl leol wedi cael eu hyfforddi fel gohebwyd cymunedol i drafod digwyddiadau cymunedol. Yn Wisbech, mae Swyddog Cefnogi Cymunedol yr Heddlu (PCSO) yn cyflwyno blogiau mewn Lithuaneg, gyda chyfieithiad Saesneg, er mwyn ymestyn at gymunedau sy'n anodd eu cyrraedd.
- Mae **Swydd Gaerlŷr** wedi diweddarau ei ddull o ymdrin ag ymlyniad cymunedol ar ôl gweld bod y dull blaenorol yn dueddol o ganolbwyntio ar brosiectau unigol neu brosesau statudol. Mae'r dull newydd yn cynnwys prosiect ymchwil ymlyniad cymunedol dan yr enw 'Circles of Need' lle mae'r heddlu a'u partneriaid yn cael eu hyfforddi i ddatblygu 'mapiau taith cwsmeriaid' i ddeall yn well beth yw profiad a theimladau dioddefwyr bregus.

5. Canlyniadau a chamau nesaf

40. Mae natur 'o'r gwraidd i fyny'r' treialon, a'r ffaith bod y lluoedd heddlu wedi cael eu hannog i addasu eu dull wrth fynd yn eu blaenau, yn golygu bod yr asesiad wedi canolbwyntio mwy ar ganlyniadau ansoddol, yn hytrach na rhai meintiol. Nid ydym wedi chwilio am dystiolaeth o effaith cyffredinol ar lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr wyth ardal yn y treial, ond - er enghraifft - am newidiadau yn y ffordd y mae dioddefwyr yn teimlo am y ffordd y cafodd eu hachos ei drin, gwelliannau yn y modd y dynodir dioddefwyr bregus neu a yw'r rhai sy'n delio â galwadau yn credu eu bod yn medru rheoli achosion risg uchel yn well.
41. Er bod gan yr heddluoedd fwy i'w wneud i ymwreiddio'r dull sy'n canolbwyntio ar y dioddefwyr wrth ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol fel 'busnes arferol', bu canlyniadau'r treialon yn galonogol iawn, gyda phawb a gymerodd ran yn nodi rhai neu'r cyfan o'r canlynol: dynodi dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol bregus a mynych yn gyflymach ac yn fwy cyson; mwy o fodlonrwydd gan y galwr; peth newid yn niwylliant staff rheng flaen tuag at ganolbwyntio ar niwed i'r dioddefwr; a gwell triniaeth amlasiantaethol o achosion risg uchel. Isod mae rhai o'r uchafbwyntiau o'r wyth adroddiad asesiad sy'n cyd-fynd â'r ddogfen hon:

GWELL DYNODI AR DDIODDEFWYR BREGUS A MYNYCH

- Cyn y treialon, nododd **Swydd Gaergrawnt** nad oedd "unrhyw asesiad risg ffurfiol yn cael ei gynnal gan Gwnstabiliaeth Swydd Gaergrawnt ar ddiodefwyr YGG". Ers y treialon, mae'r holl bartneriaid yng Ngweithgor Rhanddeiliaid Swydd Gaergrawnt wedi dod i'r casgliad bod "dealltwriaeth a dynodi niwed wedi gwella" a "bod prosesau mwy diwniad wedi cael eu datblygu i gefnogi'r rhai sydd mewn mwyaf o risg o niwed."
- Cred **Swydd Gaerlŷr** bod "y broses asesu risg yn nodi newid mawr i'r heddlu a'u partneriaid ac mae'n allweddol wrth gefnogi gallu'r sefydliad i atal achosion bregus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol rhag llithro trwy'r rhwyd."
- Roedd **Swydd Lincoln** yn cydnabod "mewn sawl achos roedd y llu heddlu wedi methu deall a chasglu pa mor fregus oedd y dioddefwyr" a bod "diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth o ran beth sy'n gwneud unigolyn yn fregus. Gwelwyd bod hyn yn wir ar draws y llu heddlu gan gynnwys Tîmau Plismona Cymdogol (NPTs). Nid oedd diffiniad clir o ddiodefwyr mynych o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac nid oedd llawer o'r rhai oedd yn derbyn galwadau yn ymwybodol bod llawer o'r rhai oedd yn galw yn ddiodefwyr mynych hyd yn oed cyn cysylltu â'r heddlu." Yn dilyn treialon mae Swydd Lincoln "yn awr yn asesu 75% o alwyr YGG, gyda tharged o 100%. Mae gan yr heddlu ddarlun cliriach o ddiodefwyr mynych a bregus ac mae'n defnyddio adnoddau yn fwy effeithiol. Mae'r partneriaid wedi mabwysiadu'r un broses asesu risg ac maent yn gweld asesu risg priodol ar 100% o'r rhai sy'n galw."
- Yn **Ne Cymru** mae'r gronfa ddata ymddygiad gwrthgymdeithasol newydd yn cynnig modd i reoli dull sy'n cael ei yrru gan y diodefwyr o ran cofnodi digwyddiadau, gyda digwyddiadau yn cael eu rhoi ynghlwm wrth gofnodion ar gyfer diodefwyr unigol yn hytrach na dibynnu ar rybuddion enw a chyfeiriad ar system rheoli cofnodion digwyddiadau Heddlu De Cymru. Bu hyn yn arbennig o bwysig wrth ddynodi diodefwyr bregus a mynych ymddygiad gwrthgymdeithasol.

GWELL GWASANAETH I'R RHAI SY'N GALW

- Nododd **Gorllewin Mersia** bod “100% o ddiodefwyr YGG Telford a holwyd dros y ffôn yn fodlon ar y modd y cawsant eu trin gan yr heddlu.”
- Yn **Avon a Gwlad yr Haf**, mae'r galwad yn ôl ymhen 24 awr i'r holl ddiodefwyr wedi cael effaith gadarnhaol ar y mwyafrif o'r rhai sy'n galw oedd wedi rhoi adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ond, mae'r llu heddlu yn sylweddoli bod galwad yn ôl wedi ei roi i rai “diodefwyr nad oes arnynt angen rhagor o asesu risg” ac mae'n nawr “yn ceisio ymateb yn effeithiol i 100% o'r diodefwyr bregus a mynych yn hytrach na galw 100% o'r diodefwyr yn ôl.”
- Mae **Swydd Gaergrawnt** yn nodi bod defnyddio “set o gwestiynau/asesiad risg wrth ddelio â galwadau yn galluogi'r rhai sy'n derbyn galwadau i gynnal sgwrs sydd wedi ei strwythuro a'i chanolbwyntio yn well gyda'r galwyr. Mae tystiolaeth bod hyn wedi cael dylanwad cadarnhaol ar lefelau bodlonrwydd y rhai sy'n galw.”

NEWID MEWN DIWYLLIANT TUAG AT BWYSLAIS AR Y NIWED I DDIODEFWYR

- Mae'r **Gwasanaeth Heddlu Metropolitan** yn nodi “ffactor allweddol wrth wella rheolaeth ar YGG yw'r gallu i newid ffordd o feddwl yr holl staff er mwyn cydnabod pwysigrwydd YGG a gwella eu dealltwriaeth o risgiau ymddygiad gwrthgymdeithasol, natur fregus y diodefwyr a diodefwyr mynych. Mae'n hanfodol bod y niwed a'r effaith y gall troseddau eu cael ar gymunedau yn cael eu deall yn llawn. Rhaid i'r gwaith tymor hir hwn barhau i fod yn sail i ddull y MPS o reoli YGG.”
- Yn **Ne Cymru**, ar draws y saith Partneriaeth Ddiogelwch Cymunedol, roedd cytundeb cyffredinol bod rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi canolbwyntio llawer mwy ar y diodefwyr o ganlyniad i'r prosiect.
- Mae **Gorllewin Mersia** yn amlinellu'r dull sy'n canolbwyntio ar niwed i ddiodefwyr fel a ganlyn: “dylai'r cysyniad o sbectwm niwed fod yn ganolog i'n model plismona. Trwy fabwysiadu'r dull hwn, rydym yn osgoi peryglon 'plismona yn ôl categorïau' lle mae ymateb sydd wedi ei bennu yn barod yn cael ei roi gan swyddogion, staff a phartneriaid.” Aiff yr adroddiad ymlaen i ddweud “rydym yn blaenoriaethu ein hymateb i'r rhai sydd fwyaf bregus neu'r rhai sy'n diodeff y niwed mwyaf. Mae ymarferwyr yn ymdrin â digwyddiadau gyda meddwl agored ac ymchwiliol i sefydlu beth sydd wedi digwydd, pwy sydd wedi cael ei niweidio neu pwy sydd mewn perygl o niwed a sut y gallwn ymateb mewn modd sy'n atal rhagor o niwed.”
- Cydnabu **Gweithgor Rhanddeiliaid Swydd Gaergrawnt**, er bod peth tystiolaeth o ddefnydd effeithiol o'r dull newydd oedd yn canolbwyntio ar niwed a phartneriaid o ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, bod angen rhagor o waith cyn, “i'r broses ddod yn fusnes arferol.” Ânt ymlaen i ddweud, “am y rheswm hwn, ystyriwyd monitro a herio lleol yn hanfodol ac roedd rheolwyr llinell yn gyfrifol am sicrhau bod swyddogion a staff yn deall ac yn cydymffurfio â'r broses.”

GWELL YMDRIN AMLASANTAETHOL AR ACHOSION RISG UCHEL

- Adroddodd y **Gwasanaeth Heddlu Metropolitan** bod “codi ymwybyddiaeth, cynyddu gwaith partneriaeth a thystiolaeth anecdotaidd wedi tanlinellu gwell effeithiolrwydd o ran gwaith partneriaeth o ganlyniad i well dealltwriaeth o bwerau tai gymdeithasol.”
- Canolbwyntiodd **Gorllewin Mersia** ar “ddefnyddio cynlluniau gofal, fel bod cynlluniau gweithredu yn medru cael eu defnyddio, yn hytrach na chofnod o'r hyn sydd wedi cael ei wneud. Rhaid cytuno ar y rhain gydag asiantaethau sy'n bartneriaid â'r diodeffwr/achwynydd cyn i'r camau gweithredu ddigwydd.”

GWERSI A DDYSGWYD

42. Mae lluoedd heddlu hefyd wedi tanlinellu rhai gwersi allweddol a sialensiau, a ddaeth i'r golwg yn ystod y treialon:
- **Rhannu gwybodaeth** - nododd sawl llu heddlu gyndynrwydd parhaus (sydd wedi gwreiddio'n ddwfn) i rannu gwybodaeth sensitif rhwng asiantaethau, ar sail dehongliad eithafol ar y ddeddfwriaeth bresennol. Teimlid felly bod cael y swyddogion arweiniol ar ddiogelwch a diogelu data i gymryd rhan yn gynnar yn y broses, yn arbennig os oedd TG newydd dan sylw, yn hollol allweddol i lwyddiant y dull delio â galwadau;
 - **Hyfforddiant** - mae llawer o'r heddluoedd sy'n cymryd rhan wedi rhoi hyfforddiant i'r rhai sy'n delio â galwadau mewn defnyddio asesiadau risg. Ond, mae cydnabyddiaeth y bydd ansawdd yr asesiad risg yn dibynnu i raddau ar yr unigolyn ac ar y pwysau ar y ganolfan alwadau ar y pryd (e.e. faint o alwadau 'byw' sydd ar yr eiliad honno). Dywedodd nifer o luoedd heddlu bod angen cryfhau'r hyfforddiant gyda rhywfaint o fonitro lleol, yn y tymor byr, i sicrhau bod gweithdrefnau newydd yn cael eu dilyn, ac yn arbennig i osgoi dull sy'n osgoi risg ac sy'n galw pob dioddefwr yn fregus - 'rhag ofn'. Mae hyn yn mynd law yn llaw â'r broses o adolygu canlyniadau i sicrhau bod y broses asesu risg yn gweithio yn iawn - er enghraifft, mae nifer o luoedd heddlu wedi gorfod mireinio'r trothwy i sicrhau bod yr holl achosion sy'n cael eu dynodi fel rhai 'risg uchel' yn rhai risg uchel mewn gwirionedd; a
 - **Biwrocratiaeth** - yn amlwg, er bod angen gwella'r gwasanaeth i ddioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol mynych a bregus, mae angen hefyd leihau'r fiwrocratiaeth ddiangen. Nododd nifer o luoedd heddlu bryder cychwynnol y staff y byddai prosesau newydd ar gyfer asesu risg a dynodi dioddefwyr bregus a mynych yn cyflwyno rhagor o fiwrocratiaeth, ac, er enghraifft, yn effeithio ar berfformiad canolfannau galwadau. Ond, mewn rhai heddluoedd, fe wnaeth y pryderon hynny leihau yn ystod cyfnod y treialon gan y gwelwyd bod y prosesau newydd yn caniatáu i achosion risg 'arferol' yn ogystal â rhai risg uchel gael eu trin yn fwy addas. Yn y tymor hirach, dylai'r dull hwn hefyd leihau galwadau mynych gan ddioddefwyr y mae eu hachosion yn cael eu rheoli yn fwy effeithiol.

CAMAU NESAF - Y LLUOEDD HEDDLU OEDD YN Y TREIALON

43. Bydd yr wyth llu heddlu oedd yn y treialon yn parhau i ddatblygu'r dull delio â galwadau a rheoli achos, ac i weithio gyda phartneriaid i ymdrin â'r gwersi a'r sialensiau a amlinellwyd. Bydd **Gorllewin Mersia** a'r **Gwasanaeth Heddlu Metropolitan** yn cyflwyno'r weithdrefn newydd ar draws ardal yr heddlu i gyd. Mae **Swydd Gaergrawnt** yn asesu'r potensial i gyflwyno'r gweithdrefnau newydd ar draws y sir.

CAMAU NESAF - CEFNOGAETH I LUOEDD HEDDLU AC ASIANTAETHAU ERAILL

44. Mae nifer o luoedd heddlu ac asiantaethau eraill wedi dangos diddordeb mewn mabwysiadu'r dull delio â galwadau a rheoli achosion o ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn awyddus i'w annog. Dylai'r rhai sydd â diddordeb ddarllen yr adroddiadau asesiad manylach gan bob llu heddlu a gymerodd ran, a fydd yn cynnig canllaw defnyddiol i'r ystyriaethau gweithredol a threfniadol allweddol.
45. Rydym hefyd wedi rhoi ynghlwm, fel atodiadau i'r ddogfen hon, rai offer sampl y gall rhai heddluoedd ac asiantaethau eraill eu gweld yn ddefnyddiol, gan gynnwys:
- fideo hyfforddi;
 - enghreifftiau o setiau o gwestiynau syml i'r rhai sy'n delio â galwadau ar gyfer asesu risg;
 - sampl o broses asesiad risg;

- sampl o gytundeb rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau â system TG gymunedol;
- enghraifft o Leiafswm Safonau Cyffredin ar draws partneriaethau; a
- rhai astudiaethau achos, yn dangos sut y mae'r prosiect wedi newid dull lluoedd heddlu o ymdrin â dioddefwyr mynych a bregus.

CAMAU NESAF - Y SWYDDFA GARTREF, ACPO A PHARTNERIAID CENEDLAETHOL ERAILL

46. Mae'r treialon delio â galwadau a rheoli achosion yn cynnig model gwerthfawr ar gyfer ffordd newydd 'o'r gwraidd i fyny' o brofi syniadau newydd, lle mae'r gwaith o'i weithredu yn berchen i'r lefel leol o ddifrif, y mae'r Swyddfa Gartref a phartneriaid cenedlaethol eraill yn eu cefnogi a'u hwyluso. Er enghraifft, mae SLCNG wedi rhoi addewid y byddant yn parhau i gefnogi datblygiad pellach ar ddull mwy integredig amlasiantaethol o reoli ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr wyth ardal heddlu ac, yn ogystal â hyrwyddo ac annog ardaloedd eraill i ddefnyddio'r dull hwn.
47. Cam allweddol tuag at ein hymrwymiad i leihau troseddau a grymuso dinasyddion i gadw eu hardaloedd yn ddiogel yw ei gwneud yn haws i gysylltu â'r heddlu a rhoi adroddiad am droseddau ac anhrefn. Yn Ionawr 2012, fe gwblhawyd y gwaith o gyflwyno'r rhif '101' nad yw'n rhif argyfwng yn genedlaethol, gan gymryd cam o bwys tuag at ein huchelgais o ailgysylltu'r heddlu â'r cyhoedd. Mae cyflwyno'r rhif '101' yn rhoi un rhif hawdd a chofiadwy i'r cyhoedd ar draws Cymru a Lloegr i gysylltu â'r llu heddlu lleol am droseddau a phryderon nad ydynt yn gofyn am ymateb brys. Dros amser, ac yn ddibynnol ar gytundeb lleol, gallai'r rhif '101' alluogi partneriaid lleol i ymuno â'r heddlu i gynnig mynediad mwy rhwydd i gymunedau at ystod eang o wasanaethau lleol.
48. Mae'n bwysig i ni ddysgu unrhyw wersi o'r treialon hyn am ein rôl a'u casglu ar gyfer gwaith tebyg yn y dyfodol. Er enghraifft, fe danlinellodd yr adroddiad 'Ending Gang and Youth Violence' yr angen i adolygu canllawiau ac arferion rhannu gwybodaeth fel bod dull clir a syml yn cael ei gytuno ar draws yr holl asiantaethau. Bydd hyn yn sicrhau bod partneriaid yn egluro'r angen i rannu gwybodaeth a rhannu data perthnasol yn rhagweithiol. Bydd hyn hefyd yn arwain at well targedu ar adnoddau gan yr asiantaethau dan sylw.
49. Bydd y Swyddfa Gartref yn gweithio gydag ACPO i werthuso adborth gan y lluoedd heddlu fu yn y treialon a'u partneriaid ar beth a wnaethom yn dda yn ystod y treialon a beth allem ni fod wedi ei wneud yn well - naill ai trwy, er enghraifft, roi mwy neu well cydlynw a chefnogaeth. Rydym hefyd yn annog y 43 llu heddlu yng Nghymru a Lloegr i ddefnyddio'r adroddiad cryno hwn gan y Swyddfa Gartref a'r wyth adroddiad ar dreialon fel llwyfan i naill ai adeiladu ar y gwaith presennol neu i ddatblygu eu hymateb i ddioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol bregus a mynych. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r Gymdeithas Llywodraeth Leol ar gynlluniau i dynnu sylw ei haelodau at ganlyniadau allweddol y treialon.
50. Bydd HMIC yn ailadrodd ei archwiliad ymddygiad gwrthgymdeithasol o'r holl 43 llu heddlu yng Nghymru a Lloegr a dylai'r adroddiad gael ei gyhoeddi yn yr haf. Bydd yr archwiliad yn canolbwyntio yn benodol ar y gwasanaeth i ddioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol mynych a bregus, a danlinellwyd eto yng ngwaith diweddar yr Arolygiaeth ar gofnodi troseddau.

Atodiad A

FIDEO HYFFORDDI GORLEWIN MERSIA

Mae Gorllewin Mersia, a'u partneriaid, yn ymroddedig i roi gwasanaeth eithriadol i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu ac maent wedi bod yn gweithio ar y pum egwyddor o ddelio â galwadau a rheoli achosion i gyflawni hyn. Mae'r fideo (gweler yr hyperddolen isod) yn dangos sut y mae Gorllewin Mersia a'u partneriaid wedi datblygu ffordd o asesu risg ar y cyswllt cyntaf a sut y maent wedi datblygu gweithio mewn partneriaeth ym mhob maes o'r busnes i helpu dioddefwyr a chymunedau.

www.sparkdev.co.uk/showcase/show/tackling-anti-social-behaviour

Atodiad B

ENGHREIFFTIAU O GWESTIYNAU AR GYFER Y RHAI SY’N DELIO Â GALWADAU

AVON A GWLAD YR HAF

Mae’r rhai sy’n deilio â galwyr yn gofyn y cwestiynau hyn, sydd wedi cael eu hintegreiddio i system ddelio â galwadau’r llu i wneud asesiad cychwynnol o risg. Bydd galwr yn cael ei ddsbarthu yn ddiodefwr bregus yn awtomatig os bydd yr ateb i gwestiwn 13 yn “do”.

1. A ydych yn gwybod o ble mae’r sŵn/helynt yn dod?
2. A oedd arfau yn rhan o’r digwyddiad neu a soniwyd am arfau?
3. Pa fath?
4. Ble mae’r arfau yn awr?
5. Faint o bobl sydd yn cymryd rhan?
6. Oedd yr helynt yn un gorfforol neu ar lafar?
7. A ydych chi mewn perygl y funud hon?
8. Ble yn union y maen nhw rwan?
9. Ble mae’r troseddwr/ unigolyn sy’n gyfrifol yn awr?
10. A oes yna unrhyw un wedi bod yn defnyddio alcohol neu gyffuriau?
11. A oes gorchymyn llys/gorchymyn atal mewn grym?
12. A oes yna unrhyw un yn wael neu wedi anafu?
13. A ydych chi neu eich teulu wedi dioddef digwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol dro ar ôl tro?
14. Os do, pa mor aml?
15. Os do, a yw wedi ei dargedu’n uniongyrchol atoch chi neu eich teulu?
16. Os do, pam ydych chi’n meddwl eich bod yn cael eich targedu?
17. A yw wedi effeithio ar eich iechyd neu ffordd o fyw?
18. Os do, a yw’n golygu eich bod chi, eich teulu neu eich eiddo mewn perygl o niwed neu ddifrod?

GORLLEWIN MERSIA

Mae’r rhai sy’n delio â galwadau yn gofyn cwestiynau wedi eu strwythuro a’u sgriptio sy’n ymddangos yn awtomatig pan fydd galwad am ymddygiad gwrthgymdeithasol ac mae’r digwyddiad yn cael ei gofnodi. Mae prompt am weithredu gorfodol pan fydd trosedd casineb bosibl yn cael ei dynodi:

- 1) Beth yn union sy’n digwydd?
- 2) A yw wedi digwydd o’r blaen?
- 3) Faint o bobl sydd yna a beth yw eu hoed?
- 4) A ydych yn adnabod y rhai sy’n cymryd rhan, ac yn gwybod eu henwau a ble maent yn byw?
- 5) A ydych chi neu eich teulu wedi cael problemau fel hyn o’r blaen (D/N)?
6. Os do, pa mor aml (ac a ydynt yn gysylltiedig)?
- 7) Pam bod hyn yn digwydd i chi neu eich teulu yn eich barn chi?
- 8) **Prompt.** A ydych yn meddwl bod hyn oherwydd ffydd eich teulu (unrhyw un), ethnigrwydd, rhywioldeb, oedran, anabledd, problemau iechyd neu unrhyw reswm arall?
Os Ydw, mynd yno yn **ORFODOL**)
9. Sut y mae hyn wedi effeithio arnoch chi neu eich teulu?
- 10) A oes unrhyw un y gallwch gysylltu ag ef neu hi i’ch cefnogi ar hyn o bryd?


Atodiad C:

SAMPL O SIARTIAU LLIF ASESU RISG


Mae rhai lluoedd heddlu yn y treialon wedi defnyddio siartiau llif neu fapiau proses i esbonio'r dull newydd sy'n rhoi pwyslais ar y dioddefwr i'r rhai sy'n delio â galwadau, swyddogion yr heddlu a phartneriaid allweddol. Dangosir enghreifftiau o **Avon a Gwlad yr Haf** a **Gorllewin Mersia** yma.

AVON A GWLAD YR HAF

PROSES ASESU RISG YGG



GORLLEWIN MERSIA



Atodiad D

PROSES ASESU RISG YGG - GRŴP RHANDEILIAID SWYDD GAERGRAWNT

Mae'r dogfennau canlynol wedi eu rhifo 1 - 4 gan **Grŵp Rhanddeiliaid Swydd Gaergrawnt** ac maent yn enghraifft o sut y mae'r bartneriaeth honno yn cynnal eu proses asesu risg yn eu hymateb i alwadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol.

1. CYFARWYDDYD DELIO Â GALWADAU YGG I'R RHAI SY'N DELIO Â GALWADAU

O 1 Mawrth 2011 ni fydd cofnod ffeil Digwyddiad yn cael ei greu yn awtomatig wrth i ddigwyddiadau CC3 YGG gael eu cau trwy ddefnyddio codau penodol. Yn hytrach bydd adroddiadau 301 anhroseddol yn cael eu llenwi gan staff sy'n mynychu digwyddiad o YGG sy'n canolbwyntio ar ddioddefwr, pan fydd y dioddefwr, ar ôl asesiad risg, yn cael ei ddynodi fel un bregus.

Rhaid i chi fod yn hollol ymwybodol o sut i asesu risg pa mor fregus yw unigolyn a llenwi hyn o achos i achos. Gall yr hyn sy'n ymddangos yn ddibwys i un dioddefwr gael effaith sylweddol ar un arall. Nid yw bod yn fregus yn ymwneud â natur y digwyddiad yn unig, ond mae'n cynnwys y ffactorau ac amgylchiadau sy'n amgylchynu'r digwyddiad sy'n cael effaith ar fywyd y dioddefwr o ddydd i ddydd. Nid oes cyfyngiad ar beth all y ffactorau neu amgylchiadau hyn fod. Mae angen cadw meddwl agored a siarad â'r dioddefwr i ddynodi'r darlun ehangach.

Derbynnir mwyafrif yr adroddiadau YGG cychwynnol yn yr FCR a PSC. Byddwch yn asesu a yw'r hyn sydd wedi ei gofnodi yn YGG ac a oes angen i rywun fynd yno. Byddwch yn asesu pa mor fregus yw'r un sy'n galw yn y cyfnod cychwynnol hwn o ddelio â galwad. Mae'r set o gwestiynau presennol ar gyfer digwyddiadau YGG wedi cael ei diwygio i gynnig rhagor o gyfarwyddyd. Y cwestiynau yn awr fydd:

1. A ydych wedi dioddef y math hwn o ddigwyddiad o'r blaen?
2. Meddyliwch am yr effaith ar y dioddefwr. A yw'r dioddefwr yn fregus? Ystyriwch y ffactorau canlynol:

K – Keep the Victim safe (Cadw'r Dioddefwr yn ddiogel)

E – Economic issues? (Problemau economaidd?)

E – Equality and Discrimination? (Cydraddoldeb a Gwahaniaethu?)

P – Personal circumstances? (Amgylchiadau personol?)

S – Sickness / disability? (Salwch / anabledd?)

A – Available support? (Cefnogaeth ar gael?)

F – Family circumstances? (Amgylchiadau teuluol?)

E – Environmental Issues? (Problemau Amgylcheddol?)

Bydd gwrando gweithredol gyda chyfuniadau o'r promptiau hyn yn cynorthwyo wrth wneud y penderfyniad ar raddio'r digwyddiad ac a oes angen mynd yno. Pan fydd y dioddefwr wedi dioddef 3 neu fwy o ddigwyddiadau o YGG mewn 30 diwrnod mae'r digwyddiadau yma yn cael eu graddio fel "Ymateb".

Cynhyrchwyd tabl cyfarwyddyd i'ch helpu i asesu a oes angen i rywun fynd i'r digwyddiad neu beidio ac yna sut y dylai staff ymdrin â'r digwyddiadau yr eir iddynt.

	Cyfarwyddyd ar Lunio Penderfyniadau		
	Niwed Isel Ychydig o Effaith	Niwed Canolig, Effaith Canolig / gofid	Niwed / Effaith Sylweddol
Digwyddiad Ynysig/ Mynd a dod, dim patrwm	Risg arferol	Risg arferol	Risg ganolig
Digwydd yn gyson, yn debygol o barhau heb ymyrraeth	Risg arferol	Risg ganolig	Risg uchel
Yn debygol o waethygu neu gael effeithiau pellgyrhaeddol	Risg ganolig	Risg ganolig	Risg uchel

Risg arferol – Dim angen i'r heddlu fynd yno. Yr un sy'n cymryd y galwad yn ysgrifennu CC3 yn llawn. Bydd NPT yn adolygu fel rhan o'r chwilio dyddiol trwy ddigwyddiadau yn eu hardal.

Risg ganolig – Swyddogion i fynd yno. Asesiad risg deinamig o ba mor fregus yw'r dioddefwr yn cael ei gynnal gan ddefnyddio barn broffesiynol. Os yn risg ganolig, llenwi 301 anhroseddol gyda lleiafswm yr ymchwiliadau (1-10). Bydd y metrics asesu risg yn cael ei gwblhau naill ai ar adeg yr adroddiad neu os bydd yn cael ei hystyried yn addas dan yr amgylchiadau, yn nes ymlaen gan NPT. Rhoi gwybod i'r Sarsiant.

Risg uchel – Swyddogion i fynd yno. Asesiad risg deinamig o ba mor fregus yw'r dioddefwr yn cael ei gynnal gan ddefnyddio barn broffesiynol. Os bydd y dioddefwr yn cael ei ddynodi yn un sydd mewn risg uchel o gael niwed ac yn fregus llenwch 301 anhroseddol fel **dull blaenoriaeth yn cynnwys ymgynghori amlasiantaethol**. Rhoi gwybod i'r Rheolwr ar ddyletswydd/Comander Sector ar unwaith a gosod cynllun gweithredu i gael gwared ar niwed, ei osgoi, ei leihau neu ei reoli a monitro'r ffactorau a ddynodwyd. Bydd y metrics asesu risg yn cael ei gwblhau naill ai ar adeg yr adroddiad neu os bydd yn cael ei hystyried yn addas dan yr amgylchiadau, yn nes ymlaen gan NPT.


Bydd y set cwestiynau yn parhau ar gyfer yr holl ddigwyddiadau YGG cyfredol pan fydd yn ymddangos ond nid ar gyfer niwsans swm cerbydau.

Cyfarwyddyd ar ddwyn digwyddiadau YGG risg safonol i ben

Pan fydd barn broffesiynol yn nodi naill ai na ddylid anfon unrhyw un i ddigwyddiad YGG neu na fydd y staff sy'n bresennol yn codi 301 anhroseddol, rhaid cofnodi digon o fanylion am yr ymchwiliad cychwynnol ar y digwyddiad Gorchymyn a Rheoli 3 cyn cau'r achos. Bydd hyn yn galluogi adolygiad ar sail gwybodaeth yn ddiweddarach ar y digwyddiad gan staff yr NPT fel rhan o sganio a dadansoddi lleol.

Mae'r penderfyniad ar ba lefel o ddiweddarau yn ddibynnol ar farn broffesiynol yr un sy'n delio a'r alwad neu'r swyddog sy'n bresennol /Swyddog Cefnogi Cymunedol yr Heddlu (PCSO). Rhaid i'r manylion dirwyn i ben amlinellu yn ddigon manwl beth sydd wedi digwydd, gan gynnwys manylion llawn yr holl ddiodeffwyr, tystion a throseddwy'r/ rhai dan amheuaeth os yw'n hysbys. Dylid cofnodi disgrifiadau o unrhyw droseddwy'r/ rhai dan amheuaeth os ydynt ar gael. Dylai'r ffurflen ddirwyn i ben hefyd gofnodi enwau a chyfeiriadau unrhyw bobl eraill y siaradwyd â nhw o ganlyniad i ymholiadau lleol cychwynnol a wnaed fel o dŷ i dŷ ac ati. Dylai manylion unrhyw waith papur a gyflwynwyd gael eu cofnodi hefyd - ffurflenni GAP, cofnodion intrepid ac ati. Dylai manylion tystiolaeth arall sydd ar gael fel CCTV hefyd gael eu tanlinellu.

2. SIART LLIF YN DANGOS Y BROSES AR GYFER YMDRIN Â DIGWYDDIADAU YGG



3. METRICS ASESU RISG (RAM)

Enw:		Rhif Digwyddiad:	
Cyfeiriad:		Rhif ffeil Digwyddiad:	
Rhif Ffôn:		Sgôr	Dewisiadau sgorio
Trosedd	Heblaw ar yr achlysur hwn pa mor aml ydych chi'n cael problemau?		0 – dim o'r blaen
			3 – yn achlysurol
	A ydych yn meddwl bod y digwyddiadau yn digwydd yn fwy aml a/neu yn mynd yn waeth?		5 – Yn aml
Troseddwr	A ydych yn adnabod y troseddwr?		0 – Na
			1 - Ydw
	A oes unrhyw un yn benodol yn cael ei dargedu gan yr ymddygiad hwn?		2 - Adnabod ein gilydd yn dda
	A ydych yn teimlo bod y digwyddiad hwn yn gy-sylltiedig â'ch ffydd, cenedligrwydd, ethnigrwydd, rhywioldeb, oedran, rhyw neu anabledd?		0 – Na
	A oes gan y tramgwyddwr (neu ei gymdeithion) hanes neu enw o fod yn aflonyddu neu fygwth?		1 – Nifer o bobl
			2 – Eich teulu
			3 – Chi
			0 – Na
			3 – Ydw
			0 – Na
			2 – Ddim wedi aflonyddu'r achwynwr, ond hanes neu enw o fod yn aflonyddu neu o ymddygiad treisgar.
			3 – Wedi aflonyddu'r achwynydd yn y gorffennol.
			5 – Yn aflonyddu'r achwynydd ar hyn o bryd
Effaith	Faint o effaith y mae'r hyn sydd wedi digwydd wedi ei gael arnoch?		0 – Dim o gwbl
			2 – Newid patrwm neu osgoi lleoliadau
	A oes gennych unrhyw ffrindiau, teulu neu weithwyr proffesiynol i fynd atynt i gael cefnogaeth?		4 – Pryderus.
			6 – Wedi effeithio ar iechyd corfforol neu feddyliol
	Yn ychwanegol at yr hyn sydd wedi digwydd, a ydych yn teimlo bod unrhyw beth yn cynyddu eich risg chi neu eich aelwyd (e.e. oherwydd amgylchiadau personol?)		0 – Rhwydwaith glos o bobl i gael cefnogaeth ganddynt.
			1 – Ychydig o bobl i gael cefnogaeth ganddynt.
			3 – Yn byw ar ei ben ei hun ac yn ynysig.
			0 – Na
			3 – Ydw
Graddfa	A oes unrhyw asiantaethau eraill yn ymwneud â'r broblem hon?		
	Heblaw am unrhyw effaith arnoch chi, a ydych yn meddwl bod yr hyn sydd wedi digwydd wedi effeithio ar unrhyw un arall?		
ASESIAD PERSONOL Y SWYDDOG Rhesymau:			
Asesiad y Swyddog: ARFEROL/CANOLIG/UCHEL			
SGÔR:	0-11 = ARFEROL 12-23 = CANOLIG 24+ = UCHEL	ASESIAD RISG CYFFREDINOL: ARFEROL / CANOLIG / UCHEL	
Swyddog sy'n cwblhau'r asesiad: Llofnod:	Swyddog yn goruchwylio: Llofnod:		
Enw: Rhif Coler:	Enw: Rhif Coler:		

CYDSYNIAD I RANNU GWYBODAETH


Rwyf yn cytuno i asiantaethau gael a rhannu gwybodaeth (gan gynnwys y 'system TG cwmwl rhyngryd') fel rhan o'r gwaith amlasiantaethol i helpu a sicrhau fy niogelwch a diogelwch fy nheulu. Os oes unrhyw bryderon diogelu plant, bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu os bydd y ffurflen hon yn cael ei llenwi neu beidio.

LLOFNOD: _____

PRINTIWCH EICH ENW: _____

DYDDIAD: _____

4. SIART LLIF YN DANGOS PROSES AR GYFER MEWNBYNNU PROFFILIAU AR Y 'SYSTEM TG CWMWL RHYNGRWYD'



Atodiad E

SAMPL O GYTUNDEB RHANNU GWYBODAETH RHWNG ASiantaethau A SYSTEM TG GYMUNEDOL

CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH RHWNG Y BARTNERIAETH FENLAND DDIOGELACH (SFP) YN YMWNEUD A DEFNYDDIO SYSTEM TG CWMWL RHYNGRWYD

1. CYFLWYNIAD

Nod y cytundeb lefel gwasanaeth hwn yw amlinellu'r cytundeb rhwng y sefydliadau ym Mhartneriaeth Fenland Ddiogelach yng nghyswllt defnyddio "system TG cwmwl rhyngrwyd". Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn rhoi'r manylion o ran sut y bydd y broses yn gweithio.

Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn rhoi manylion sut y bydd pob sefydliad yn y Bartneriaeth yn defnyddio'r system TG cwmwl rhyngrwyd a'u rolau a'u cyfrifoldebau i sicrhau bod y "system TG cwmwl rhyngrwyd" yn cael ei defnyddio mewn modd cyson, addas ac effeithlon.

Ymhlyg yn y cytundeb hwn mae parch i werthoedd ac amcanion y naill a'r llall.

2. CEFNDIR I'R SYSTEM TG CWMWL RHYNGRWYD

Yn ddiweddar fe wnaeth SFP sicrhau arian i dreialu defnyddio "system TG cwmwl rhyngrwyd" am ddeuddeng mis. Mae system TG ddiogel, wedi e hamgryptio, "system TG cwmwl rhyngrwyd" yn rhoi cyfle i well rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau sy'n bartneriaid, gan alluogi gwybodaeth a chuddwybodaeth y bartneriaeth i gael eu cyfnewid yn gyflym er mwyn hwyluso datrys problemau ynghylch dioddefwyr YGG a lleoliadau yn gyflym. Yn benodol, mae'n galluogi dynodi dioddefwyr a lleoliadau YGG mynych a bregus yn gyflym, yn ogystal â mwy o bwyslais ar ddarparu cefnogaeth fwy diwniad a monitro ar ddioddefwyr a lleoliadau o'r fath. Mae'n lleihau'r angen am gyfarfodydd partneriaeth. Mae hefyd yn caniatáu rheoli achos YGG y bartneriaeth.

3. CEFNDIR SFP

SFP yw'r Bartneriaeth Ddiogelwch Gymunedol i'r Fenland.

Diben cyffredin yr SFP yw gweithio gyda phartneriaid lleol a sirol a rhanddeiliaid yn ardal y Fenland i wella'r ddealltwriaeth ar y cyd o'r niwed sy'n effeithio ar unigolion a theuluoedd mewn perygl o YGG yn ei gyd-destun ehangaf. Y nod yw gwella'r ddealltwriaeth a'r prosesau gyda'r holl bartneriaid yn rhannu gwybodaeth ac yn ymwneud ag asesu diwniad o risg a niwed.

Cytunwyd ar Gytundeb Rhannu Gwybodaeth ac fe'i llofnodwyd gan y partion perthnasol.

4. NODAU'R CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH

Nodau'r cytundeb hwn yw:

- Galluogi gwybodaeth i lifo rhwng partneriaid, gan yr holl bobl sydd â dealltwriaeth lawn o'u rôl a'u cyfrifoldebau a rolau a chyfrifoldebau'r partion eraill yng nghyswllt y wybodaeth y maent yn ei mewnbynnu a'r wybodaeth y maent yn ei derbyn neu ei darllen.
- Hwyluso dull wedi ei gydlyn, diwniad o ddefnyddio'r "system TG cwmwl rhyngrwyd"
- Galluogi proses reoli achos gyffredin effeithiol ac effeithlon
- Gwella cysylltiadau a chyfathrebu yn lleol

- Hwyluso rhannu gwybodaeth byw, diogel, cyflym ac effeithlon
- Gwella rheoli achosion YGG y bartneriaeth
- Sicrhau bod partneriaid yn atebol

5. CWMPAS Y CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH

Partïon y Cytundeb Lefel Gwasanaeth yw:

- Cwnstabiliaeth Swydd Gaergrawnt
- Cyngor Dosbarth Fenland
- Cymdeithas Dai Roddons
- Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Gaergrawnt

Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth hwn yn cychwyn ar... a bydd yn cael ei adolygu mewn 6 mis o'r dyddiad hwnnw neu yn gynt trwy gytundeb yr holl bartïon. Bydd unrhyw ddiwygiadau i'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn cael eu cytuno gan SFP.

6. CYFRIFOLDEBAU AR Y CYD YR HOLL BARTÏON

Yr 'asiantaethau arweiniol' ym mhob achos yw'r sefydliad sy'n creu'r proffil o unigolyn. Mae'r proffil yn eiddo i'r sefydliad hwnnw a hwy fydd yn arwain ar y gynhadledd achos a'r tasgau cychwynnol. Os bydd yn cael ei hystyried yn addas yn ddiweddarach, gall sefydliad arall sy'n bartner gymryd cyfrifoldeb fel arweinydd, yn cydlynu gweithgareddau i gefnogi unigolyn. Pan fydd un asiantaeth yn barnu bod dioddefwr yn un risg uchel, yna bydd yr holl asiantaethau yn ei drin felly.

Os bydd achos yn cael ei asesu fel un canolig tuag at risg uchel gan unrhyw asiantaeth yna bydd cyfathrebu rhwng asiantaethau i drafod yr achos. Bydd yr holl gofnodion a thrafodaethau a dogfennaeth yn ymwneud â'r trafodaethau hyn yn cael eu cofnodi yn lleol yn unol â gweithdrefnau'r asiantaeth ac nid ar y "system TG cwmwl rhyngrwyd".

Bydd pob sefydliad yn pennu rôl weinyddol adran. Eu cyfrifoldeb fydd ychwanegu, golygu a dadweithredu yr holl uwch ddefnyddwyr a defnyddwyr o fewn eu sefydliad. Bydd cyfrifoldeb cyffredinol am ddefnyddio'r "system TG cwmwl rhyngrwyd" ym mhob sefydliad gan y swyddogaeth weinyddu Dosbarth. Gall defnyddwyr hefyd gael gwahanol ganiatâd o ran mynediad. Mae hyn yn sicrhau mai dim ond y bobl berthnasol sy'n rhannu /darllen a chwilio gwybodaeth.

HYFFORDDIANT

Datblygwyd y "system TG cwlwm rhyngrwyd i sicrhau ei bod yn hawdd i'w defnyddio ac y gall unrhyw unigolyn ei defnyddio. Nid oes angen cael unrhyw hyfforddiant arbenigol. Bydd pob sefydliad yn gyfrifol am sicrhau bod pob defnyddiwr yn gyfarwydd â'r ffordd y mae'r "system TG cwmwl rhyngrwyd" yn gweithio.

MEWNBYNNU DATA/ CREU PROFFILIAU

Rhaid i bob achos Risg Uchel gael ei fewnbynnu ar y "system TG cwmwl rhyngrwyd" cyn gynted ag sy'n ymarferol ac ym mhob achos cyn pen 24 awr.

Bydd pob sefydliad yn rhoi manylion yn Adran 7 isod am eu rolau a'u cyfrifoldebau unigol. Ond, mae'n hanfodol sicrhau bod data yn cael ei fewnbynnu mor gynnar ag sy'n bosibl i alluogi i'r wybodaeth gael ei rhannu yn fyw. Bydd hyn yn sicrhau bod ymyrraeth yn gynnar ac y bydd prosesau i ddiogelu'r dioddefwr yn cael eu cyflymu.

Cyfrifoldeb y defnyddiwr yw nodi gyda phwy y mae'n addas rhannu'r wybodaeth. Ni ddylai gwybodaeth gael ei rhannu ond gyda'r bobl hynny sydd angen gwybodaeth ar gyfer dibenion plismona ac yn unol â'r Cytundeb Rhannu Gwybodaeth fel y'i llofnodwyd gan y Bartneriaeth Fenland Ddiogelach.

GORUCHWYLIAETH

Cyfrifoldeb yr uwch ddefnyddwyr / rheolwyr yw monitro'r logiau gweithredu a'r tasgau. Dylai unrhyw ddefnydd amhriodol o'r system gael ei drin yn unol â pholisi lleol. Dylid rhoi adroddiad ar unwaith ar unrhyw achlysuron pan fydd perygl i ddiogelwch neu ddiogelu data i'r SFP.

ARCHWILIADAU ACHOS

Yn ogystal ag archwiliadau mewnol bydd yr SFP yn gyfrifol am gynnal archwiliadau achos ar y cyd rhwng asiantaethau. Bydd hyn yn cael ei gynnal gan Grŵp Llywio'r SFP. Rhannwyd cyfarwyddyd ar gyfer cwblhau'r archwiliadau hyn gyda'r SFP.

CYNLLUNIAU WRTH GEFN

Lluniwyd cynllun wrth gefn i ymdrin ag unrhyw faterion sy'n codi o gamddefnyddio'r "system TG cwmwl rhyngwrwyd", colli data a diogelu data ac achosion sy'n effeithio ar ddiogelwch.

CYNADLEDDAU ACHOS

Dylai pob sefydliad sicrhau bod digon o gynrychiolaeth ar gael i fynd i gynhadledd achos. Ar gyfer achosion risg uchel rhaid galw cynhadledd achos ar y cyd i'r asiantaethau cyn gynted ag sy'n ymarferol ac ym mhob achos cyn pen 72 awr. Bydd disgwyl i bawb fynd i unrhyw gyfarfod pan ofynnir am eu presenoldeb gan asiantaeth arweiniol.

MARCIAU RHYBUDD

Bydd partneriaid yn sicrhau eu bod yn cofnodi pob marc rhybudd am bobl a lleoliadau i ddiogelu cydweithwyr a galluogi i asesiad risg priodol gael ei gynnal.

PENNU TASGAU

Anfonir hysbysiadau o dasgu trwy e-bost i gyfeiriad e-bost a ddynodwyd y defnyddiwr yn ogystal â chael ei gofnodi ar y "system TG cwmwl rhyngwrwyd". Cyfrifoldeb y defnyddiwr yw sicrhau bod y "system TG cwmwl rhyngwrwyd" yn cael ei wirio yn gyson a bod rheolwr llinell yn ymwybodol o unrhyw absenoldeb i sicrhau na fydd dim yn cael ei golli a bod baich achosion yn cael ei reoli.

TU ALLAN I ORIAU (MIN NOS, PENWYTHNOS A GWYLIAU BANC)

Pan na fydd yr asiantaeth yn wasanaeth 24/7 dylid gwneud trefniadau addas ar gyfer unrhyw alwadau risg uchel a wneir i'r asiantaeth honno. Bydd Roddons a FDC yn cyflwyno protocol yn sicrhau bod staff canolfan alwadau allan o oriau yn rhoi gwybod i Ganolfan Wasanaeth yr Heddlu (PSC) am unrhyw alwadau YGG sy'n cael eu hasesu fel rhai risg uchel. PSC i godi CC3 a threfnu i Arolygwr addas neu Sarsiant i gysylltu â chanolfan alwadau Roddons/ FDC i drafod.

7. CYFRIFOLDEBAU POB PARTNER

Bydd Cwnstabiliaeth Swydd Gaergrawnt yn:

CREU PROFFIL:

- Yn mewnbynnu'r holl ddiodefwyr YGG risg uchel bregus cyn pen 24 awr o'r asesiad risg. Dyletswydd yr Arolygwr ar Ddyletswydd/ Comander Adran yw sicrhau bod y proffil yn cael ei fewnbynnu. Gall hyn gael ei ddisgrifio fel DMM os bydd yn addas.
- Yn ystod oriau swyddfa o ddydd Llun i ddydd Gwener bydd y proffil yn cael ei fewnbynnu gan y tîm plismona cymunedol sy'n gyfrifol am yr ardal lle mae'r diodefwr yn byw. Petai'r NPT ar gyfer yr ardal honno ddim yn gweithio'r "system TG cwmwl rhyngwyd" bydd SPoC yn mewnbynnu'r proffil. Y SPoC cyfredol ar gyfer creu proffil "system TG cwmwl rhyngwyd" ar gyfer heddlu Swydd Gaergrawnt yw
- Ar fin nos a phenwythnosau mae'r cyfrifoldeb am greu'r proffil yn nwylo'r NPT sy'n gweithio ar y pryd.

MEWNBYNNU DATA/DIWEDDARIADAU:

Dylai unrhyw ddiweddariadau ar gyfer y "system TG cwmwl rhyngwyd" gael eu mewnbynnu ar adeg cwblhau'r dasg/diweddariad perthnasol. Gellir cael mynediad i'r "system TG cwmwl rhyngwyd" trwy PDA ac nid oes angen dychwelyd i swyddfeydd Roddons. Os nad yw'n ymarferol diweddarau'r "system TG cwmwl rhyngwyd" ar y pryd, rhaid gwneud hyn cyn gynted ag sy'n ymarferol a fan hwyraf cyn diwedd y diwrnod gwaith.

ARCHWILIADAU ACHOSION:

Bydd archwiliadau achosion yn cael eu cyflawni gan bob asiantaeth unigol. Cynhyrchwyd canllawiau i sicrhau cysondeb trwy bob asiantaeth. Bydd archwilio achosion yn cael ei gwblhau gan Reolwr YGG yr Heddlu a'r cydlynnydd, ar y cyd gyda'r Comander Adran perthnasol.

CYNADLEDDAU ACHOS:

Os bydd proffil diodefwr YGG risg uchel yn cael ei greu gan Gwnstabiliaeth Swydd Gaergrawnt nhw fydd yn gyfrifol am alw cynhadledd achos cyn pen 24 awr. Bydd y Comander Adran, pan fydd ar gael, yn gyfrifol am gadeirio'r cyfarfod. Pan na fyddant ar gael bydd yr Arolygydd ar Ddyletswydd neu'r Sarsiant NPT yn gyfrifol.

GWIRIO'R SYSTEM TG CWMWL RHYNGRWYD:

Bydd Cwnstabiliaeth Swydd Gaergrawnt yn sicrhau bod y "system TG cwmwl rhyngwyd" yn cael ei wirio yn ddyddiol. Cyfrifoldeb y Sarsiant NPT yw gwirio'r "system TG cwmwl rhyngwyd" ar ddechrau pob shift i sicrhau bod yr holl wybodaeth/tasgau yn cael eu derbyn a bod gweithredu arnynt yn gyflym a phrydlon.

Bydd Roddons yn:

CREU PROFFIL:

- Yn mewnbwnnu'r holl ddiodefwyr YGG risg uchel bregus cyn pen 24 awr o'r asesiad risg. Cyfrifoldeb y Rheolwr Cymdogaeth yw sicrhau bod y proffil yn cael ei fewnbwnnu. Gall y dasg hon gael ei rhoi i Dîm Cymdogaeth Roddons os bydd yn addas.
- Yn ystod oriau swyddfa o ddydd Llun i ddydd Gwener bydd y proffil yn cael ei fewnbwnnu gan y Swyddog Cymdogaeth ar gyfer yr ardal lle mae'r diodefwyr yn byw. Petai'r Swyddog Cymdogaeth ar gyfer yr ardal honno ddim yn gweithio bydd y swyddog dyletswydd dros y Swyddog Cymdogaeth yn mewnbwnnu'r proffil.
- Ni fydd Roddons yn mewnbwnnu data ar benwythnosau.

MEWNBWNNU DATA/DIWEDDARIADAU:

Dylai unrhyw ddiweddariadau ar gyfer y "system TG cwmwl rhyngwrwyd" gael eu mewnbwnnu ar adeg cwblhau'r dasg/diweddariad perthnasol. Gellir cael mynediad i'r "system TG cwmwl rhyngwrwyd" trwy PDA ac nid oes angen dychwelyd i swyddfeydd Roddons. Os nad yw'n ymarferol diweddarau'r "system TG cwmwl rhyngwrwyd" ar y pryd, rhaid gwneud hyn cyn gynted ag sy'n ymarferol a fan hwyraf cyn diwedd y diwrnod gwaith.

ARCHWILIADAU ACHOSION:

Bydd archwiliadau achosion yn cael eu cyflawni gan bob asiantaeth unigol. Cynhyrchwyd canllawiau i sicrhau cysondeb trwy bob asiantaeth. Bydd archwilio achosion yn cael ei gwblhau gan y Rheolwr Cymdogaeth a chydlynnydd YGG.

CYNADLEDDAU ACHOS:

Os bydd proffil diodefwyr YGG yn cael ei greu gan Roddons nhw fydd yn gyfrifol am alw cynhadledd achos cyn pen 24 awr. Bydd y Rheolwr Cymdogaeth, pan fydd un ar gael, yn gyfrifol am gadeirio'r cyfarfod. Pan na fyddant ar gael y cydlynnydd YGG a/neu'r Swyddog Cymdogaeth fydd yn gyfrifol.

MONITRO'R SYSTEM TG CWMWL:

Bydd Roddons yn sicrhau bod y "system TG cwmwl rhyngwrwyd" yn cael ei gwirio yn ddyddiol. Cyfrifoldeb y Swyddog Cymdogaeth ar Ddyletswydd yw gwirio'r "system TG cwmwl rhyngwrwyd" ar ddechrau pob diwrnod i sicrhau bod yr holl wybodaeth/tasgau yn cael eu derbyn a bod gweithredu arnynt yn gyflym a phrydlon.

Bydd Cyngor Dosbarth Fenland (FDC) yn:

CYMRYD RHAN LAWN MEWN RHEOLI PROFFIL:

- Yn mewnbwnnu'r holl ddiodefwyr YGG risg uchel bregus cyn pen 24 awr o'r asesiad risg.
- Rheoli'r Mewnbwnn gan ddefnyddwyr FDC.
- Yn ystod oriau swyddfa o ddydd Llun i ddydd Gwener bydd y proffil yn cael ei fewnbwnnu gan y Swyddog Cefnogi SFP neu staff wedi eu hyfforddi sy'n arwain ar yr achos.
- Nid oes gan FDC y gallu i fewnbwnnu data ar y penwythnosau, os bydd angen bydd Swyddog Cefnogi'r Bartneriaeth Fenland Ddiogelach yn cael ei alw i gynhadledd achos argyfwng trwy'r CCTV tu allan i'r swyddfa.

MEWNBYNNU DATA/DIWEDDARIADAU:

Dylai unrhyw ddiweddariadau i'r "system TG cwmwl rhyngwrwyd" gael eu mewnbynnu ar ôl cwblhau'r dasg berthnasol rhaid i hyn gael ei wneud cyn gynted ag sy'n ymarferol a fan hwyrach cyn diwedd y diwrnod gwaith.

ARCHWILIADAU ACHOSION:

Bydd archwiliadau achosion yn cael eu cyflawni gan bob asiantaeth unigol. Cynhyrchwyd canllawiau i sicrhau cysondeb trwy bob asiantaeth. Bydd archwilio achos yn cael ei reoli gan Swyddog Cefnogi'r SFP

CYNADLEDDAU ACHOS:

- Os bydd proffil dioddefwr YGG yn cael ei greu gan weithiwr FDC nhw fydd yn gyfrifol am alw cynhadledd achos cyn pen 24 awr.
- Y Swyddog Cefnogi SFP, pan fydd ar gael, fydd yn gyfrifol am gadeirio'r cyfarfod. Os na fyddant ar gael bydd y partner perthnasol yn cymryd y blaen ac yn datblygu ymateb tasg/gorffen.

GWIRIO'R SYSTEM TG CWMWL RHYNGRWYD

Bydd FDC yn sicrhau bod y "system TG cwmwl rhyngwrwyd" yn cael ei gwirio yn ddyddiol gan yr holl swyddogion hyfforddedig. Cyfrifoldeb pob swyddog fydd gwirio'r "system TG cwmwl rhyngwrwyd" yn ddyddiol i sicrhau bod yr holl wybodaeth/tasgau yn cael eu derbyn a bod diweddariadau yn cael eu gweithredu i safon dderbyniol a phrydlon.

8. CYSYLLTIADAU

Cwnstabiliaeth Swydd Caergrawnt:

Roddons

Cyngor Dosbarth Fenland:

Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Gaergrawnt

9. LLOFNODWYR

Atodiad F

PARTNERIAETH DE CYMRU: ISAFSWM SAFONAU CYFFREDIN

Bu De Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno safonau cyffredin ar gyfer chwe maes strategol yn ymateb y bartneriaeth i ymddygiad gwrthgymdeithasol: rheoli cyswllt; ymateb cyntaf; unedau YGG; dioddefwyr mynych a bregus; rheoli manau problemus; a fforymau adolygu achosion YGG. Mae'r bartneriaeth yn teimlo bod y gwaith hwn wedi gwella gweithio mewn partneriaeth a darparu gwasanaeth a'i fod wedi adeiladu ar y trefniadau blaenorol gan fod staff amlasiantaethol yn cael eu lleoli gyda'i gilydd.

MAES STRATEGOL: RHEOLI CYSWLLT

1. Yn ychwanegol at rif unigol heb fod yn argyfwng yr Heddlu, dylai pob Awdurdod Lleol hysbysebu rhif cyswllt 24/7 a chyfeiriad e-bost y gellir eu defnyddio gan y cyhoedd i roi adroddiad am faterion YGG i'r Awdurdod Lleol.
2. Bydd pob Uned YGG yn sicrhau bod canolfannau cyswllt yr Heddlu ac Awdurdodau Lleol a phob asiantaeth sy'n gwneud cyfeiriadau YGG yn cael gwybodaeth gyfredol am sut i gysylltu â'r uned dros y ffôn ac e-bost ac yn gwybod am yr oriau busnes a weithir yn yr uned. (Gall oriau busnes ymestyn tu hwnt i oriau swyddfa arferol, ond ni fyddant yn cychwyn ddim hwyrach na 0900 nac yn dod i ben cyn 1600).
3. Bydd staff Uned YGG yn edrych ar gyfeiriad ac yn penderfynu ar ymateb addas iddo cyn pen 3 diwrnod gwaith.
4. Os nad yw'n glir a yw'r asiantaeth y rhoddwyd adroddiad ar yr YGG iddi wedi ail gysylltu â'r sawl a roddodd adroddiad, bydd aelod o'r Uned YGG yn cysylltu â nhw cyn pen 3 diwrnod gwaith.
5. Bydd staff uned YGG yn sicrhau bod dioddefwyr YGG mynych a bregus a phartneriaid perthnasol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yr achos.
6. Bydd asiantaethau sy'n bartneriaid yn y Bartneriaeth Ddiogelwch Cymunedol yn rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau perthnasol yn unol â phrotocolau rhannu data cyfredol, trwy ddefnyddio cronfa ddata YGG y bartneriaeth a mynediad iddi a thrwy ddatgelu data perthnasol mewn fforymau YGG partneriaeth.

MAES STRATEGOL: YMATEB CYCHWYNNOL

1. Pan fydd angen hynny yr holl gyfeiriadau gan yr heddlu i gael eu trosglwyddo i'r asiantaeth briodol i weithredu arnynt cyn pen 48 awr o'u derbyn yn yr Uned YGG.
2. Yr holl gamau ac ymyraethau gan staff yr Uned YGG yn cael eu cynnal ar ran y Bartneriaeth Ddiogelwch Cymunedol (CSP) a bydd yr holl gyfathrebu a deunydd gwybodaeth yn dwyn brand y CSP.
3. Bydd Unedau YGG yn mabwysiadu a dilyn canllawiau'r Swyddfa Gartref yng nghyswllt YGG.
4. Er mwyn sicrhau ymateb cadarn, bydd yr holl gyfeiriadau sydd wedi eu dosbarthu yn gywir fel YGG yn cael eu cofnodi ar gronfa ddata YGG y bartneriaeth.
5. Er mwyn cael mynediad at ddata sydd wedi ei gynnwys ar gronfa ddata YGG y bartneriaeth, bydd disgwyl i asiantaethau rannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth addas yn unol â'r cytundeb cronfa ddata a'r protocolau rhannu gwybodaeth cyfredol.

6. Bydd staff yr Uned YGG yn sicrhau bod yr holl asiantaethau sy'n cymryd rhan yn cael gwybod am ddiodefwyr Mynych a Bregus. Bydd hyn fel arfer yn cael ei wneud mewn cyfarfodydd partneriaeth ond gellir ei gylchredeg yn gynharach na hyn os bydd angen. Ym mhob achos bydd hyn yn digwydd cyn pen mis o ddynodi'r diodefwyr fel un Mynych neu Fregus.

MAES STRATEGOL: UNEDAU YGG

1. Bydd pob CSP yn sicrhau bod uned YGG ar yr un safle wedi ei greu a bod ei staff yn cynnwys o leiaf:

1 x Cydlynnydd YGG
1 x Swyddog Heddlu YGG
1 x Cymorth i Ddiodefwyr / gweithiwr achos (gall fod yn wirfoddolwr).
Cefnogaeth weinyddol

Bydd staff yn yr Uned YGG (yn amodol ar drefniadau fetio) yn cael mynediad i gronfa ddata YGG y Bartneriaeth a Rheoli a Gorchymyn Heddlu De Cymru a chronfeydd data Rheoli Cofnodion

2. Bydd pob Uned YGG yn gweithredu o fewn y blaenoriaethau a osodwyd yn Strategaeth YGG Partneriaeth De Cymru Ddiogelach, sy'n adlewyrchu ein dealltwriaeth o'r angen i ddeall yn llawn y niwed y mae YGG yn ei achosi yn ein cymunedau a chynnig ymateb effeithiol trwy bartneriaeth.
3. Rolau a chyfrifoldebau wedi eu diffinio yn glir i gael eu drafftio a chytuno arnynt i wella cysylltiadau ac i gael dealltwriaeth glir o arferion ac egwyddorion rhwng asiantaethau sydd angen gweithio gyda'i gilydd i gyflawni deilliannau clir.
4. Bydd pob Uned YGG yn ymroddedig i ddefnyddio a datblygu cronfa ddata YGG y bartneriaeth i sicrhau ei fod yn parhau yn offeryn effeithiol ac yn hollol addas i'r diben wrth fonitro erlid dro ar ôl tro, y rhai sy'n achosi YGG a manau problemus.
5. Pob uned YGG i gytuno i fabwysiadu terminoleg gyffredin ar gyfer cronfa ddata YGG y bartneriaeth.
6. Bydd gan bob Uned YGG broses yn ei lle i gael mynediad at eiriolaeth gyfreithiol cyn pen 5 diwrnod gwaith wedi i'r Fforwm Adolygu Achos YGG wneud penderfyniad ar gamau cyfreithiol.

MAES STRATEGOL: DIODDEFWYR MYNYCH A BREGUS

1. Bydd pob CSP yn mabwysiadu'r diffiniadau o ddiodefwyr mynych neu fregus a gynhwysir yn Strategaeth YGG Partneriaeth De Cymru Ddiogelach h.y. 3 adroddiad mewn 3 mis (bydd deialog barhaus am addasrwydd y diffiniad hwn).
2. Dim ond y staff yn yr Uned YGG fydd yn gwneud y penderfyniad i alw unigolyn yn ddiodefwyr mynych a bregus. Gall staff eraill godi pryderon a all unigolyn fod yn bodloni'r meini prawf hyn i'w hystyried gan staff yr Uned. Os oes barn wahanol ar y mater hwn bydd y penderfyniad terfynol yn nwylo rheolwr yn yr Uned ASB. Bydd pob Uned YGG yn dynodi'r rheolwr a fydd â'r cyfrifoldeb hwn.

3. Bydd pob Uned YGG CSP yn gyfrifol am reoli achos dioddefwyr mynych a bregus. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy un Pwynt Cyswllt sy'n gweithio yn yr uned.
4. Bydd y ffurflen asesiad risg safonol y cytunwyd arni yn cael ei defnyddio gan bob Uned YGG. Bydd yn cael ei llenwi a'i dychwelyd i'r Uned YGG cyn pen 5 diwrnod gwaith gan pa bynnag asiantaeth sy'n ymrwymo i gynnal yr asesiad risg.
5. Bydd achosion YGG sy'n cynnwys dioddefwyr risg ganolig ac uchel a mynych a bregus yn cael eu hadolygu yn ffurfiol yn wythnosol gan yr Uned YGG.
6. Bydd rhybuddion cronfa ddata addas Rheoli a Gorchymyn Heddlu De Cymru a Rheoli Cofnodion yn cael eu gosod ar gyfer y dioddefwyr a'u cyfeiriad gan aelod addas o staff yn gweithio yn yr Uned ASB.

MAES STRATEGOL: MANNAU PROBLEMUS

1. Bydd pob Uned YGG CSP yn ceisio casglu gwybodaeth gan gymaint o ffynonellau ag sy'n bosibl. Bydd Unedau YGG yn monitro'r graddau y mae asiantaethau yn ymrwymo i'r broses hon ac yn sicrhau bod deialog barhaus am faint, prydlondeb ac ansawdd y cyflenwad o wybodaeth YGG a dderbynir gan yr Uned.
2. Bydd pob Uned YGG CSP yn defnyddio cronfa ddata YGG y bartneriaeth i ddynodi lleoliadau problemus o ran YGG o fewn ei allu ar hyn o bryd i gasglu'r wybodaeth hon. Bydd cynrychiolwyr yr uned yn cydweithio dros ddatblygu cronfa ddata YGG y bartneriaeth yn y dyfodol i gynnwys diweddariadau am fannau problemus.
3. Bydd man problemus YGG yn cael ei ddiffinio fel lleoliad lle mae lefel y bygythiad, risg neu niwed i'r ardal, neu unigolyn yn ôl barn y Fforwm Adolygu Achos YGG yn cael effaith sylweddol ar ansawdd bywyd unigolion sy'n byw a/neu yn defnyddio'r ardal, neu'r gymuned gyfan ac nad yw'n ymateb i ymyrraeth arferol.
4. Bydd aelodau o bob Uned YGG CSP yn diweddarau Fforwm Adolygu Achos amlasiantaethol yng nghyswllt y lleoliadau problemus sydd wedi cael eu dynodi. Bydd Asiantaethau yn dynodi lleoliadau problemus fel y maent yn dod i'r amlwg i'r Uned YGG cyn y cyfarfodydd.
5. Bydd lleoliadau problemus yn cael eu cytuno trwy drafodaeth mewn cyfarfodydd Fforwm Adolygu Achos amlasiantaethol. Yn ystod cyfarfodydd bydd y grŵp yn penderfynu ar yr asiantaeth fwyaf addas i arwain i ddelio â'r man problemus. Bydd yr Uned YGG yn chwarae rôl gefnogol a chydlynu yng nghyswllt gweithgareddau dilynol a gynlluniwyd.
6. Dylai'r holl bartneriaid ac asiantaethau perthnasol gynnig adnoddau i ymdrin â lleoliadau problemus; bydd y graddau y bydd hyn yn digwydd yn cael ei adolygu a'i drafod yn ystod cyfarfodydd y Fforwm Adolygu Achos YGG.
7. Dylai Cynghorwyr Tactegol Lleihau Troseddau gael eu defnyddio i gynghori'r Fforwm Adolygu Achos ar ddatrys problemau manau problemus pan fydd yn addas.
8. Pan fydd yn addas bydd staff Uned YGG yn gofyn i ystyriaeth gael ei rhoi ar gyfer gosod "arwyddion" yr heddlu ar fannau problemus YGG a bydd ganddynt beirianwaith ar gyfer gwneud ceisiadau o'r fath a rhoi adroddiad ar y canfyddiadau i'r Fforwm Adolygu Achos YGG.

MAES STRATEGOL: FFORWM ADOLYGU ACHOS YGG

1. Bydd Fforymau Adolygu Achos YGG yn cael eu cynnal yn fisol. Byddant yn cael eu trefnu gan Uned YGG y CSP a bydd presenoldeb amlasiantaethol yno. Gall CSP ddewis rheoli Dioddefwyr Mynych a Bregus, Troseddwy'r a Mannau Problemus dan gyfarfodydd ar wahân, neu gallant gyfuno'r elfennau hyn yn un cyfarfod.
2. Rhaid i bob CSP gael y gallu i alw cyfarfod argyfwng o'r Fforwm Adolygu Achos YGG cyn pen 24 awr.
3. Bydd yr holl aelodau sy'n mynychu'r Fforwm Adolygu Achos yn gweithredu o fewn y polisi a phrotocolau rhannu gwybodaeth.
4. Er mwyn delio ag YGG yn effeithiol trwy'r Fforwm Adolygu Achos YGG dylai'r asiantaethau canlynol fynd i'r cyfarfodydd: Awdurdod Lleol; Heddlu De Cymru; Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig; Iechyd; Gwasanaethau Cymdeithasol; Gwasanaethau Plant; Gwasanaeth Troseddwy'r Ifanc; timau Pobl Fregus; y Sector Gwirfoddol; Rhai o'r Gwasanaeth Prawf. Dylai fod ganddynt y grym i wneud penderfyniadau ac ymrwymo adnoddau eu hasiantaeth yn y cyfarfod.
5. Rhaid i'r Fforwm Adolygu Achos gael y gallu i gyfethol asiantaethau eraill i'r grŵp yn ôl y gofyn. Gall yr asiantaethau hyn gynnwys: Heddlu Trafnidiaeth Prydain; Iechyd yr Amgylchedd; Adran Drwyddedu; Gwasanaethau Cyfryngu; Cymorth i Ddioddefwyr; Gwyllo Cymdogol; Elusennau; Swyddogion Cyswllt Ysgolion; Sefydliadau Ieuencid; Gofal Tystion; Gwasanaeth Erlyn y Goron; Adran Parciau; Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr.
6. Bydd Cadeirydd cyfarfod y Fforwm Adolygu Achos yn cael ei bennu yn lleol. Bydd y Cadeirydd yn monitro presenoldeb gan asiantaethau a phan fydd hynny'n addas yn bwydo unrhyw bryderon neu broblemau yn ôl parthed: presenoldeb Pennaeth y CSP.

Atodiad G

ASTUDIAETHAU ACHOS

Avon a Gwlad yr Haf

Mae A yn byw ar ei phen ei hun ac yn teimlo dan fygythiad gan ei chymydog sy'n byw gyferbyn. Maent yn rhannu cyntedd gymunedol a landin. Fe'i dynodwyd fel risg uchel ym Mawrth 2011 gan ddefnyddio'r Metrics Asesu Risg (RAM). Roedd yr YGG yn ymwneud â llawer o ymwelwyr a phobl ifanc yn mynd i gyfeiriad y tramgwyddwr gan arwain at niwsans swm, gweithgareddau yn ymwneud â chyffuriau, pethau yn cael eu taflu o ffenestr y 5ed llawr a iaith dramgwyddus yn cael ei defnyddio. Roedd hefyd yn mynd yn feddw yn aml gartref ac nid oedd yn cadw ei gŵn ar dennyn yn yr ardaloedd cymunedol lle roeddent yn cael baeddu. Teimlai A yn arbennig o fregus gan ei bod yn credu y byddai yn cael ei hadnabod yn hawdd gan yr achwynydd. Rhoddwyd Rhybudd Tawelu Swm. Fe dorrodd hwn ddwywaith. Fe wnaeth y tramgwyddwr wrthod llofnodi Cytundeb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Fe wnaeth y Cyngor Dinesig sicrhau gwaharddeb sifil yn ei erbyn ym Mehefin 2011 ac nid yw hwn wedi cael ei dorri hyd yn hyn. Mae A yn hapus iawn yn awr gan fod y tramgwyddwr wedi newid ei ymddygiad ac nid yw'n cael problemau bellach.

Swydd Gaergrawnt

Cychwynnodd yr achos ym Mehefin 2011 pan wnaeth gwraig oedrannus adrodd am ystod o broblemau YGG wrth Ddarparwr Cofrestredig. Roedd proses asesu risg yn awr wedi ei gweithredu gan bob asiantaeth yn ymwneud â'r treial maes ac roedd y system TG cwmwl rhyngwyd wedi ei lansio. Fe aseswyd bod y dioddefwr yn un risg uchel ar y cam siarad ar y ffôn ac fe roddwyd manylion ar y system i rybuddio asiantaethau eraill perthnasol sydd wedi llofnodi i ymuno â'r system. Trafodwyd yr achos gan bartneriaid mewn cyfarfod ar 1 Gorffennaf ac yna dechreuwyd rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau ar y system. O ganlyniad, cyfeiriwyd y dioddefwr at Ofal Cymdeithasol Oedolion ac Iechyd Meddwl i gael cefnogaeth addas. Mabwysiadwyd dull mwy cydlyn, yn canolbwyntio ar niwed, ac roedd gwybodaeth yn cael ei rhannu ac ymyrraeth yn cael ei threfnu yn gyflymach i ddiodeffwr bregus a ddynodwyd.

Yn dilyn Ffurflen Cwnstabiliaeth 102 o ran y dioddefwr, gofynnodd arbenigwyr Oedolion Bregus mewn Uned Gyfeirio Aml Asiantaethol (MARU) am gynhadledd achos ar y cyd i ystyried yr achos. Sefydlwyd y MARU tra roedd y treial hwn yn cael ei gynnal. Lluniwyd cysylltiadau cryf gyda'r uned i ymdrin â digwyddiadau YGG pan fydd y dioddefwr hefyd yn oedolyn bregus. Roedd y cais hwn yn ddiangen oherwydd y camau gweithredu prydlon a gymerwyd ond fe wnaeth danlinellu'r angen i'r uned hon gael mynediad at y system TG cwmwl rhyngwyd fel rhan o'u rôl. Roedd natur fregus y dioddefwr eisoes wedi ei nodi ac fe wnaeth y gweithredu ar y cyd gychwyn trwy brosesau asesu risg a rhannu gwybodaeth a weithredwyd fel rhan o'r treial maes. Mae'r achos hwn yn dangos bod y sylfeini ar gyfer ymateb mwy effeithiol yn eu lle. Mae'r achos hefyd yn tanlinellu'r angen i ystod eang o asiantaethau gysylltu ag unrhyw system TG a gyflwynwyd fel offeryn rhannu gwybodaeth neu reoli achos ar y cyd. Fe allai'r pryderon iechyd meddwl a ddynodwyd yn yr achos hwn fod wedi cael eu hasesu a'u trin yn fwy cywir yn gynharach, petai gan Iechyd a Gofal Cymdeithasol fynediad i'r system yn barod.

Sussex

Mae'r achos hwn yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a dargedwyd tuag at grŵp o hen wragedd oedd yn 91, 82, a 65 oed. Roedd y gwagedd yn gymdogion ar ffordd dawel. Cychwynnodd y problemau pan wnaeth grŵp o bobl ifanc lleol gerdded heibio un o'r tai a difrodi'r rhosod oedd yn tyfu yn yr ardd wrth ochr y llwybr troed. Daeth y wraig 82 oed allan o'i thŷ i herio'r bobl ifanc, a gofyn iddynt beidio â gwneud hyn, oherwydd bod y rhosod wedi eu plannu gan ei gŵr oedd wedi marw ers hynny. Bu'r bobl ifanc yn ymosodol tuag ati, a'r digwyddiad hwn oedd y catalydd ar gyfer yr hyn a ddigwyddodd dros y dyddiau wedyn. Fe wnaeth y bobl ifanc wedyn ddod yn ôl dros y dyddiau nesaf, gan daflu pethau at y tai, difrodi'r addurniadau yn yr ardd ac achosi rhagor o ddifrod i flodau.

Fe wnaeth un o'r bobl ifanc hefyd fygwth "rhoi'r tŷ ar dân", a "llosgi'r dioddefwr wrth bolyn", Fe wnaeth swyddogion NPT ddynodi yn gyflym bod hyn yn erlid mynych ar bobl fregus ac fe wnaethant ymweld â nhw i gyd, cwblhawyd asesiad risg YGG oedd yn sgorio yn uchel, ac fe wnaeth y swyddogion gychwyn ymchwiliad a rhoi camau diogelu yn eu lle. Fe wnaed yr ardal yn "weithgaredd patrolio dan gyfarwyddyd" i gynyddu gweithgaredd heddlu ar amseroedd allweddol. Y diwrnod canlynol fe wnaeth y bobl ifanc ddychwelyd ac achosi rhagor o broblemau, ond y tro hwn fe wnaeth arwain at weld un o'r dioddefwyr yn cael trawiad ar y galon, ac un arall yn cael poenau yn ei brest. Fe wnaeth ambiwlans wedyn fynd yno a mynd ag un o'r dioddefwyr i'r ysbyty. Fe wnaeth swyddogion NPT gyrraedd yn gyflym yno a chadw'r ddau dan amheuaeth gerllaw oedd yn ffitio'r disgrifiad a wnaeth gyfaddef eu bod wedi bod â rhan yn y digwyddiad. Wrth gael eu holi, ac wrth sylweddoli pa mor ddifrifol oedd eu hymddygiad fe wnaethant enwi'r tri unigolyn ifanc arall a oedd wedi cymryd rhan.

Roedd tystiolaeth glir bod yr ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi effeithio ar les corfforol a meddyliol y preswylwyr yma a oedd wedi eu dychryn yn fawr gan yr hyn oedd wedi digwydd. Roedd un o'r dioddefwyr wedi tapio ei blwch llythyrau a chloi ei giât oherwydd ofnau am ei diogelwch.

Trefnwyd cyfarfod yn gyflym, a daeth asiantaethau gwahanol yno, a chytunwyd ar nifer o gamau fel rhan o'r cynllun diogelwch. Roedd hyn yn cynnwys cyngor ar atal troseddau, systemau larwm, a dull o ddiogelu blychau llythyrau rhag tân. Arestwyd y pump oedd dan amheuaeth, yn 14 - 16 oed, a rhoddwyd cyfweliad iddynt ac fe gawsant fechnïaeth amodol gan yr heddlu i ddiogelu'r dioddefwyr. Yn dilyn hyn cyhuddwyd tri o'r rhai dan amheuaeth am aflonyddu (maent yn aros am yr achos llys ar hyn o bryd), a derbyniodd un rybudd terfynol.

Fe wnaeth ymyrraeth gyflym yr heddlu wrth ddynodi hwn yn achos risg uchel, cefnogi'r dioddefwyr, ac adnabod ag ymdrin â'r tramgwyddwyr, atal unrhyw ddigwyddiadau eraill rhag digwydd ac i'r mater waethygu gyda chanlyniadau mwy trasig.

Mae swyddogion lleol yn cadw cysylltiad cyson gyda'r dioddefwyr, a wnaeth anfon cerdyn diolch yn ddiweddar i'r holl swyddogion a gymerodd ran am yr help a'r gefnogaeth y gwnaethant eu rhoi iddynt wrth drin y digwyddiadau.



Swyddfa Gartref

ISBN: 978-1-84987-740-4

Cyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref

© Hawlfraint y Goron 2012